



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol parthed dyled aelwydydd.

Irene Bucelli ac Abigail McKnight

Y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, Ysgol
Economeg Llundain

Medi 2022

Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i sicrhau gwella gwasanaethau cyhoeddus a'r broses o lunio polisïau drwy gefnogi Gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu a chymhwyso tystiolaeth annibynnol drylwyr ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sydd eisoes yn bodoli a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cyrchu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisïau;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran mynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol;
- Defnyddio'i waith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hybu dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth lywio a gwella gwasanaethau cyhoeddus a'r broses o lunio polisïau a chyfrannu at ddamcaniaethau mewn perthynas â llunio a gweithredu polisi.

Drwy secondiadau, lleoliadau Doethuriaeth a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i ymgymryd ag ymchwil sy'n berthnasol i bolisïau ac sy'n cael effaith

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn www.wcppp.org.uk/cy/

Arianwyr Craidd



Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd yn 1883. Mae Prifysgol Caerdydd yn sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth arddangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI), sef sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan bob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesedd ffynnu.



Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol bywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

Cynnwys

Summary

Error! Bookmark not defined.

Background

Error! Bookmark not defined.

Introduction

Error! Bookmark not defined.

Policy context

Error! Bookmark not defined.

Evidence of policy effectiveness

Error! Bookmark not defined.

Challenges and facilitating factors

Error! Bookmark not defined.

Conclusion

Error! Bookmark not defined.

References

Error! Bookmark not defined.

Annex: Methodology

Error! Bookmark not defined.

Acknowledgements

Error! Bookmark not defined.

Crynodeb

- Mae cymryd camau i liniaru, atal ac adsefydlu mewn perthynas â dyled aelwydydd yn bwysig yng ngoleuni'r cynnydd diweddar mewn dyledion problemus ymhlith aelwydydd incwm isel, a'r rhan y mae dyled yn ei chwarae o ran gwreiddio tlodi ac effeithio ar sawl agwedd ar allgáu cymdeithasol.
- Nid yw dulliau cyffredin o fynd i'r afael â dyled aelwydydd (e.e. gwasanaethau cynghori ar ddyledion a rhyddhau o ddyled, rheoleiddio a gwell mynediad at gyfleoedd credyd cost isel, hybu llythrennedd a galluogrwydd ariannol, a pholisïau lles sy'n seiliedig ar asedau) yn ymdrin i raddau helaeth â'r achosion sylfaenol sy'n sbarduno'r galw am fenthyca ymhlith aelwydydd incwm isel (sef incwm isel). Gan hynny, ni ellir eu hystyried yn atebion syml ar gyfer gwrthdroi'r tueddiadau hyn.
- Fodd bynnag, bydd angen i strategaeth cynhwysiant ariannol gyfannol, integredig gynnwys yr holl elfennau hyn, a ffactorau eraill sy'n effeithio ar adnoddau ariannol aelwydydd, yn ogystal â'r ffyrdd y maent yn ymwneud â'r system nawdd cymdeithasol.
- Ceir cysylltiadau rhwng dyled aelwydydd a meysydd polisi yr ymdrinnir â nhw mewn adolygiadau eraill, er enghraifft:
 - **Allgáu digidol:** Gall cynhwysiant digidol hybu llythrennedd ariannol a galluogrwydd ariannol a hwyluso mynediad at gymorth a gwasanaethau cynghori mewn perthynas â dyledion.
 - **Y nifer sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod:** mae ymyriadau i gynyddu'r nifer sy'n ceisio cymorth (e.e. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor) yn bwysig o ystyried bod ôl-ddyledion yn sbardun sylweddol o ran dyled. Gall rhannu data wella'r cymorth y mae dinasyddion yn ei dderbyn.
 - **Anfantais o ran trafndiaeth; Ansicrwydd bwyd; tlodi tanwydd; cyflenwad tai fforddiadwy; addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar; allgáu digidol:** Mae dyledion yn amlhaenog ac mae llawer o aelwydydd (nid y tlotaf yn unig) mewn sefyllfa lle y mae problemau dyled yn debygol oherwydd yr amrywiaeth o alwadau croestoriadol ar eu hadnoddau.
- Daw'r adolygiad i ben gyda nifer o gamau gweithredu addawol, gan gynnwys y canlynol:
 - Gall strategaethau i gynyddu adnoddau cartrefi, diwygio'r dreth gyngor, a phwysau i newid agweddau penodol ar drefn y

Cefndir

Comisiynodd Lywodraeth Cymru Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) i adolygu strategaethau, rhaglenni ac ymyriadau rhyngwladol mewn perthynas â thlodi ac allgáu cymdeithasol. Fel rhan o'r gwaith hwn, cafodd y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol (CASE)¹ yn Ysgol Economeg Llundain ei chomisiynu i gynnal adolygiad o'r dystiolaeth rhyngwladol ar bolisiâu a rhaglenni addawol a gynlluniwyd i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol ar draws deuddeg maes polisi allweddol. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddyled aelwydydd.

Yn bob un o'r deuddeg adolygiad polisi yn mynd i'r afael â'r cwestiynau allweddol canlynol:

- Pa bolisiâu, rhaglenni ac ymyriadau rhyngwladol sy'n effeithiol o ran lleddfu tlodi?
- Beth yw'r priodweddau/safonau a nodweddion sy'n allweddol neu'n gyffredin i'r gwahanol ddulliau hyn?

Eir i'r afael â'r cwestiynau drwy ddarparu'r canlynol:

- Cyd-destun Cymru ym mhob maes polisi a'r prif fentrau y mae Llywodraeth Cymru'n ymgymryd â nhw;
- Gwybodaeth fanwl am y berthynas rhwng y maes polisi dan sylw a thlodi ac allgáu cymdeithasol;
- Crynodeb o'r dystiolaeth o brofiad bywyd a allai helpu o ran deall profiadau posibl pobl o ymyriadau polisi a'u hymateb posibl iddynt;
- Trosolwg o'r dystiolaeth rhyngwladol o effeithiolrwydd polisiâu (gan gynnwys astudiaethau achos);
- Heriau a ffactorau hwyluso sy'n gysylltiedig â rhoi polisiâu ar waith.

Yn ogystal â'r deuddeg adolygiad polisi, rydym wedi llunio adroddiad trosolwg sy'n crynhoi'r dystiolaeth allweddol o bob un o'r adolygiadau unigol, amlygu cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi, ac yn myfyrio ar yr holl dystiolaeth er mwyn gwneud nifer o argymhellion polisi, neu gamau gweithredu addawol, ym mhob un o'r deuddeg

¹ Sefydlwyd y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol (CASE) yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain (LSE) yn 1997. Mae'n ganolfan ymchwil amlddisgyblaethol sy'n archwilio anfantais gymdeithasol a'r rhan y mae polisiâu cymdeithasol a chyhoeddus yn ei chwarae o ran ei hatal, ei lliniaru neu ei gwaethygu. Mae gan ymchwilwyr yn y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol brofiad helaeth o gynnal adolygiadau polisi sy'n cwmpasu dystiolaeth yn llenyddiaeth y DU a llenyddiaeth rhyngwladol.

maes. Cyfeiriwch at yr Atodiad i gael manylion am y fethodoleg, gan gynnwys sut y dewiswyd y deuddeg maes polisi penodol.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o gyfres o adroddiadau a luniwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru fel rhan o'i gwaith ar tlodi ac allgáu cymdeithasol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r gwaith hwn gan y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, ceir dau adroddiad ar natur, graddfa a thrywydd tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru – un yn canolbwyntio ar dystiolaeth a data meintiol, a'r ail yn canolbwyntio ar dystiolaeth o brofiad bywyd (Carter, 2022a; 2022b). Comisiynodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru y Sefydliad Polisi Newydd hefyd i gynnal adolygiad o strategaethau rhynglwadol ar gyfer lliniaru tlodi (Kenway et al., 2022) sy'n archwilio dulliau llywodraethol cyffredinol o fynd i'r afael â thlodi.

Cyflwyniad

Mae dyled aelwydydd wedi codi i lefelau digynsail ledled y DU (TUC, 2019). Er y canfuwyd bod lefelau dyled yng Nghymru ychydig yn is na'r rhai mewn rhannau eraill o'r DU yn gyffredinol (Winckler, 2014), ceir tystiolaeth bod cyllid aelwydydd Cymru wedi cael ergyd arbennig o galed yn ystod pandemig y coronafeirws: Amcangyfrifodd Cyngor ar Bopeth fod £73 miliwn o ôl-ddyledion wedi cronni ar filiau aelwydydd (e.e. rhent, cyfleustodau, y dreth gyngor) rhwng dechrau'r pandemig a diwedd 2020, a nododd dros 280,000 o bobl yng Nghymru eu bod ar ei hôl hi o ran taliadau (Dutton a Hardy, 2020). Mae aelwydydd â phlant, pobl sy'n ddi-waith, neu bobl ag anableddau wedi bod yn fwy tebygol o wynebu problemau dyled. Canfu tystiolaeth bellach gan Centre for Cities (2020) mai dinasoedd yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Gogledd Lloegr a nododd y lefelau uchaf o ddyledion problemus, gan weld y cynnydd uchaf mewn Dyfarniadau Llys Sirol. Ceir gwahaniaethau daearyddol yng Nghymru hefyd, gyda lefelau uchel o ddyled ac ansolfedd personol yn enwedig yng Nghymoedd De Cymru ac, i raddau llai, ar arfordir y gogledd a rhai ardaloedd gwledig (Winckler, 2014). Ledled y DU, mae cartrefi sydd ymhlith y pumed tlotaf o'r dosbarthiad incwm yn fwy tebygol, a hynny mewn modd anghymesur, o brofi dyled problemus (17.7%, o'i gymharu â 9.7% yn achos y grŵp ail tlotaf a dim ond 0.6% o'r cwintel cyfoethocaf), yn unol â thueddiadau yn Lloegr (JRF, 2020a).

Diffinnir **dyled problemus** gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019) fel dyled y mae aelwydydd yn nodi ei bod yn faich trwm a'u bod yn cael problemau diddyledrwydd a/neu hylifedd, e.e. syrthio ar ei hôl hi gyda biliau neu ymrwymtiadau credyd. Roedd y tebygolrwydd o brofi dyledion problemus yn ystod y pandemig yn amrywio rhwng rhanbarthau, gyda phobl yng Nghymru yn debygol iawn o gael anawsterau ariannol o'u cymharu â'r rhan fwyaf o ranbarthau eraill, sef 17% (Round et al., 2020).

Mae Sefydliad Joseph Rowntree (2018) yn amlygu diffyg cynilion a phensiynau fel sbardun posibl i dlodi yng Nghymru yn y dyfodol. Nid oedd gan fwy na chwarter o aelwydydd Cymru ddigon o gynilion i gyflenwi eu hincwm rheolaidd am un mis yn unig ar ddechrau'r pandemig ac roedd un ym mhob bob deg yn cael trafferth i dalu eu biliau yn rheolaidd (Sefydliad Bevan, 2020). Daeth dyled i wasanaethau cyhoeddus i'r amlwg hefyd fel ffactor allweddol sy'n rhwystro pobl rhag cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt (Sefydliad Bevan, 2020). Mae hyn yn unol â thystiolaeth o'r DU sy'n amlygu effaith dyled a didyniadau budd-daliadau ar y bobl hynny sydd mewn tlodi, o ganlyniad i ordalu budd-daliadau (The Trussell Trust, 2020; Fitzpatrick et al., 2018). Yn benodol, mae Cooper a Hills (2020) yn amlygu'r rhan y mae system blaendaliadau Credyd Cynhwysol yn ei chwarae, a'r ad-daliadau y mae'n rhaid eu gwneud yn eu sgil, y dangosir eu bod yn cynyddu caledi ariannol a'r defnydd o fanciau bwyd (Ymddiriedolaeth Trussell, 2020).

Cyd-destun polisi

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ers cryn amser bod angen hwyluso ymateb cyfannol a chydlynol gan asiantaethau ar y cyd i gynhwysiant ariannol. Yn unol â'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i Gymru a luniwyd yn ddiweddar, a chyflwyno'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) ar gyfer cymorth brys, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn weithredol mewn sawl maes polisi sy'n gysylltiedig â chynhwysiant ariannol, gan gynnwys y canlynol:

- Gwella mynediad at gredyd fforddiadwy (gan gynnwys cymorth ar gyfer ehangu undebau credyd);
- Buddsoddi'n uniongyrchol mewn gwasanaethau cynghori a datblygu safonau system sicrhau ansawdd — mae cyllid datganoledig ar gyfer gwasanaethau cynghori ar ddyledion yn ei gwneud yn bosibl i Gymru ddatblygu ei dull integredig ei hun o gomisiynu gwasanaethau cynghori ar ddyledion;
- Ymrwymiad i hybu llythrennedd ariannol a galluogrwydd ariannol.

Mae gweithgareddau eraill a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â diwygio'r dreth gyngor, yn arbennig o bwysig, o ystyried y ffactorau sy'n sbarduno dyled a nodwyd ymhlith teuluoedd incwm isel.

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu tystiolaeth ryngwladol ar bolisïau sy'n cynrychioli **atebion ataliol i ddyled aelwydydd, megis polisïau sy'n hybu addysg ariannol a galluogrwydd ariannol; polisïau llesiant sy'n seiliedig ar asedau; a mesurau sy'n canolbwyntio ar gyflenwi credyd neu ddarparu gwybodaeth**. Mae hefyd yn cwmpasu **gwasanaethau cynghori ar ddyledion a gweithdrefnau rhyddhau o ddyled a thalu dyledion**, sy'n cynrychioli polisïau lliniaru ac adsefydlu, sy'n

canolbwyntio ar bobl sydd eisoes mewn dyled — er y dylid nodi y gall gwasanaethau cynghori ar ddyledion hefyd atal problemau dyled rhag mynd y tu hwnt i reolaeth. Nod gweithdrefnau rhyddhau o ddyled a thalu dyledion yw datrys problemau dyled pobl, yn aml drwy dalu rhan o'r dyledion. Mae gweithdrefnau talu dyledion fel arfer yn cael eu neilltuo ar gyfer yr achosion mwyaf eithafol o orddyled ac maent yn aml yn golygu talu mewn rhandaliadau dros gyfnod penodol, neu dalu incwm uwchlaw trothwy penodol.

Y berthynas â thlodi ac allgáu cymdeithasol

Yn y DU, mae dyled broblemus wedi cynyddu yn ystod y ddau ddegawd diwethaf ac mae cysylltiad cryf rhyngddi a thlodi (Bramley a Besemer, 2018) yn ogystal ag allgáu cymdeithasol. Er enghraifft, gall dyledion diwarant greu problemau drwy leihau gwydnwch ariannol aelwydydd rhag ergydion ariannol, gan arwain aelwydydd gorddyledus i brofi cyfnodau hir o galedi ariannol. Mae problemau dyled hefyd yn tueddu i fod yn fwy parhaus yn achos aelwydydd tlawd (Hood et al., 2018, Dearden et al., 2010). Mae cartrefi incwm isel sydd â dyledion diwarant sy'n werth mwy na'u hasedau ariannol yn fwy tebygol o fod mewn 'dyled net', gyda (Hood et al., 2018), sy'n eu gwneud yn fwy agored i ergydion ariannol. Ceir achosion cyffredin iawn ymhlith yr aelwydydd hyn o fod ar ei hôl hi o ran ad-dalu dyledion (Hood et al., 2018; Fitzpatrick et al. 2018; 2020), ac mae dyledion sy'n ymwneud ag ôl-ddyledion ar dai, trethi lleol a biliau cyfleustodau yn fwy cyffredin o'u cymharu â chredyd prynwyr (Bramley a Besemer, 2018).

Mae diffyg hylifedd tymor byr, sy'n arwain at ôl-ddyledion, yn fwy tebygol o achosi i bobl sy'n byw mewn tlodi fenthyca gan ddarparwyr credyd llog uchel, drud – mewn gwirionedd, y rheswm mwyaf cyffredin dros ddefnyddio cynhyrchion credyd cost uchel yw talu am gostau hanfodol fel bwyd, trafnidiaeth a biliau (Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, 2021; Fitzpatrick, 2020). Mae hyn yn ychwanegu at y tebygolrwydd y bydd benthycwyr yn cael eu dal mewn sefyllfa dyled ddirywiol, er gwaethaf rheoliadau diogelu sydd wedi cyfyngu ar arferion niweidiol a oedd yn annog, er enghraifft, treiglo benthyciadau (Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, 2016). **Mae'r darlun cyffredinol felly yn un sy'n dangos perthynas gyd-atgyfnerthol, lle tlodi yw un o brif achosion dyled a all, yn ei thro, waethygu caledi ariannol a bod yn agored i niwed** (Atflied, 2016; Lea, 2021; Hartfree a Collard, 2014).

Mae aelwydydd yn ymateb mewn gwahanol ffyrdd i ddyled broblemus ac yn defnyddio mecanweithiau ymdopi megis defnyddio llai, diddymu asedau neu gynyddu oriau gwaith pan fo hynny'n bosibl. Mae torri gwariant yn golygu bod rhaid cyfaddawdu rhai agweddau ar fywyd bob dydd am agweddau eraill, a'i fod yn

rhwystro gallu teuluoedd i dalu am anghenion sylfaenol (e.e. tai, bwyd, cyfleustodau, trafndiaeth a dillad) sydd, yn ei dro, yn cynyddu'r risg o ansicrwydd bwyd neu dlodi tanwydd. Gall hyn orfodi teuluoedd i ddibynnu ar eu teulu estynedig a ffrindiau, banciau bwyd, elusennau a marchnadoedd ariannol/benthycwyr (ffurfiol ac anffurfiol) er mwyn talu costau'r hanfodion hyn. Yn y DU, mae'r ddibyniaeth ar fenthycia anffurfiol wedi cynyddu dros y degawdau diwethaf, a'r bobl hynny sydd mewn tlodi sydd hefyd yn fwy tebygol o'i ddefnyddio (Bramley a Besemer, 2018). Pobl sydd mewn tlodi sydd fwyaf tebygol o ddibynnu ar fenthycia gan aelodau o'u teulu ac (yn enwedig os yw'r teulu estynedig hefyd mewn perygl o fod mewn tlodi) mae'n bosibl y ceir ôl-ffeithiau, o ran bod yn fwy agored i broblemau, ar yr aelwydydd sy'n benthycia arian a'r rhai sy'n ei dderbyn.

Ar yr un pryd, mae'r straen ariannol sy'n gysylltiedig â dyled aelwydydd yn rhyngweithio â straen seicolegol (e.e. gorbyrder, poeni neu deimladau o fetu ag ymdopi, yn ogystal â stigma sy'n gysylltiedig â dyled). Mae'r **straen seicolegol sy'n gysylltiedig â dyled aelwydydd yn cael ei gysylltu â chanlyniadau negyddol ar draws amrediad o feysydd sy'n ymwneud ag allgáu cymdeithasol**, o gysylltiadau cymdeithasol a gwrthdaro â theulu estynedig neu ar yr aelwyd, i ganlyniadau cyflogaeth a chanlyniadau addysgol plant – gan ei gwneud yn fwy tebygol y caiff anfantais ei drosglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf (French a Vigne, 2019; Hiilamo 2021; Bialowolski, et al., 2021; Collard, 2014).

Ceir tystiolaeth gref o'r berthynas rhwng dyled ac ystod o broblemau iechyd corfforol a meddyliol (Richardson et al., 2013; Turunen a Hiilamo, 2014; French a McKillop, 2017; French a Vigne, 2019; Lea, 2021; Hiilamo a Grundy, 2020; Meltzer et al., 2011). Dangoswyd bod yr effaith andwyol hon ar lesiant meddyliol a chorfforol yn erydu hunan-barch a hunanhyder, ac yn lleihau rhagolygon cyflogaeth, nid yn unig drwy danseilio'r gallu i chwilio am waith ond hefyd drwy effeithio ar ba mor dda y mae'r bobl hynny sydd mewn gwaith yn perfformio yn eu swyddi (Dearden, 2010; Hiilamo, 2021; CPEC, 2013). Fodd bynnag, nid oes gan bob math o ddyled gysylltiad cryf ag effaith seicolegol negyddol. Er enghraifft, yn achos dyledion gwarantiedig hirdymor fel morgaeisi a benthyciadau myfyrwyr mae'r cysylltiad ag effeithiau negyddol ar lesiant meddyliol yn llai clir (Hiilamo, 2020; McCloud a Bann, 2019).

Y berthynas â phrofiad bywyd o dlodi ac allgáu cymdeithasol

Mae deall profiadau pobl a'r agweddau seicolegol sy'n gysylltiedig â dyled yn bwysig iawn oherwydd bod y ddau ohonynt yn gallu bod yn benderfynyddion ac yn ganlyniadau o ddyled.

Yn aml, mae profiadau o gywilydd a straen yn mynd law yn llaw â dyled. Er enghraifft, mae Bramley a Besemer (2018) yn awgrymu bod gorfod dibynnu ar fenthyca anffurfiol o ganlyniad i fod mewn dyled yn atgof poenus o straen ariannol ac amddifadedd, a bod aelwydydd mewn tlodi yn fwy tebygol o ddibynnu ar fenthyca anffurfiol. Mae tystiolaeth o brofiad bywyd o Gymru hefyd yn amlygu y gall benthyca anffurfiol arwain pobl i ddibynnu ar ddefnyddio credyd 'cost uchel' yn aml, a all arwain at gylchoedd o dlodi a dyled (The Young Foundation, 2016).

Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod dyled yn brofiad emosiynol iawn, a bod cylchoedd ailadroddol yn cyfyngu ar allu pobl i ddianc rhag dyled a hefyd yn disbyddu'r egni emosiynol sylweddol sydd ei angen i jyglo'r holl ofynion gwahanol ar eu hincwm yn barhaus (Dearden et al., 2010). Er gwaethaf grym penderfyniad a sgiliau sylweddol wrth lywio amgylchiadau cymhleth, mae'n aml yn wir bod dyled yn erydu'r gallu i wneud cynnydd cynharach o ran lleihau dyledion, ac yn erydu'r uchelgais o wneud hynny (Dearden et al., 2010).

Mae didyniadau budd-daliadau sy'n gysylltiedig â dyled, a gafodd eu crybwyll uchod, nid yn unig yn rhoi straen pellach ar amgylchiadau ariannol sydd eisoes yn ansicr, ond yn cyfrannu at ddynmeg straen seicolegol, gan ddisbyddu cymhelliant y bobl hynny sydd wedi'u dal yn y math hwn o fagl tlodi (Fitzpatrick et al., 2018; 2020). Mae'r ddynmeg seicolegol hon yn gysylltiedig â thystiolaeth o sut y gall ansicrwydd ariannol effeithio ar wneud penderfyniadau, gyda strategaethau ymdopi yn canolbwyntio ar atebion tymor byr i atal amgylchiadau sy'n achosi straen, yn aml ar draul nodau'r dyfodol, a mwy o amharodrwydd i gymryd risg, gan arwain at lai o hunan-barch ac ymdeimlad dwysach o allgáu cymdeithasol (Sheehy-Skeffington a Rea, 2017; Hardy a Lane, 2018).

Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

Ymyriad	Cryfder y dystiolaeth	Effeithiolrwydd
Llythrennedd ariannol	Cryf	Effeithiol – Llythrennedd ariannol o ran ymddygiadau ariannol Cymysg – Addysg ariannol ar lythrennedd ac ymddygiadau
Polisiau lles sy'n seiliedig ar asedau	Cryf	Cymysg

Gwasanaethau cynghori ar ddyledion	Da	Effeithiol
Gwasanaethau rhyddhau o ddyled	Gwan (Mae gwerthusiadau cadarn yn brin)	Effeithiol
Mynediad at gyfleoedd credyd	Gwerthusiadau gwan o gynhyrchion ariannol amgen	Effeithiolrwydd cyfyngedig (Yn gallu cyrraedd cyfran ymylol o'r boblogaeth)

Llythrennedd ariannol

Gall cynyddu llythrennedd ariannol ddarparu'r sgiliau perthnasol i alluogi pobl i wella'u sgiliau cyllidebu a rheoli arian, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn gallu cynilo mwy er mwyn ymdopi ag ergydion ariannol, rheoli dyledion presennol, datblygu cynlluniau ad-dalu effeithiol, dod o hyd i'r cyfraddau llog gorau ac osgoi ôl-ddyledion. Gellir darparu rhaglenni llythrennedd ariannol a galluogrwydd ariannol trwy ysgolion a sefydliadau addysg bellach, a hynny fel rhan o bolisïau lles sy'n seiliedig ar asedau (gweler yr adran ganlynol), o fewn polisïau gweithredol y farchnad lafur ac fel rhan o wasanaethau cwnsela ar ddyled.

Ceir tystiolaeth bod galluogrwydd ariannol a llythrennedd ariannol yn isel yng Nghymru (Fincap, 2015) – fel sy'n wir ar lefel ryngwladol (OECD, 2020). Mae llythrennedd ariannol ac addysg ariannol yn rhan annatod o Strategaeth Galluogrwydd Ariannol Cymru a'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i Gymru yn ehangach (Llywodraeth Cymru, 2016).

Ceir llenyddiaeth ryngwladol helaeth sy'n creu darlun cyson o **bwysigrwydd llythrennedd ariannol mewn perthynas ag ystod o ymddygiadau ariannol**. Mae llythrennedd ariannol isel yn gysylltiedig â chronni dyledion, benthyca cost uchel a thrafodion â ffioedd uwch (Lusardi a Tufano, 2015). I'r gwrthwyneb, mae llythrennedd ariannol yn gysylltiedig â chynllunio ariannol mwy effeithiol (Goyal a Kumar, 2020) sydd, yn ei dro, yn arwain at gynnydd mewn daliadau cyfoeth (Lusardi a Mitchell, 2007). Er enghraifft, canfu Behrman et al. (2012) fod cysylltiad cadarnhaol cryf rhwng llythrennedd ariannol a chronni cyfoeth. O ran cynilo, mae cysylltiad cadarnhaol sylweddol rhwng llythrennedd ariannol â thueddiadau cynilo rhagofalus (Blanc et al., 2015). Yn ogystal â hyn, mae cynilwyr sy'n fwy hyddysg yn ariannol yn llwyddo i gael cyfraddau uwch o enillion ar eu cynilion ar gyfartaledd (Deuflhard, Georgarakos ac Inderst, 2019). Mae hyn yn rhannol oherwydd bod aelwydydd sy'n fwy hyddysg yn

ariannol yn fwy tebygol o ddefnyddio technolegau newydd (bancio ar-lein a thaliadau ar ffonau symudol) i ddod o hyd i gyfrifon â llog uwch.

Mae'r dystiolaeth o effeithiolrwydd addysg ariannol o ran llythrennedd ariannol ac ymddygiadau cysylltiedig yn gymysg (Hastings, 2013; Beshears et al., 2018).

Mae hwn yn faes ymchwil cyfoethog yn rhyngwladol ac mae nifer o feta-ddadansoddiadau o ansawdd uchel ar gael sy'n cwmpasu gwledydd ag incwm uchel ac isel. Mae'r effeithiau cyffredinol yn fach, a dangosir eu bod yn dibrisio'n gyflym dros amser (Fernandez et al. 2014, Beshears et al., 2018). Canfu Fernandez et al. (2014) fod ymyriadau i wella llythrennedd ariannol yn egluro 0.1% yn unig o'r amrywiant mewn ymddygiadau ariannol, a chafwyd effeithiau gwannach fyth yn achos grwpiau incwm isel. Mae astudiaethau sy'n nodi effaith gadarnhaol, hyd yn oed, yn canfod bod effeithiau'n dibynnu ar y boblogaeth darged a'r math o ymddygiad ariannol (Miller et al., 2015; Kaiser et al., 2017).

Ymddengys bod effeithiau addysg ariannol ar lythrennedd ariannol yn wannach yn achos y bobl hynny sydd ag incwm isel ac o ran dyled o gymharu â

chynilion, ac mae hynny'n bwysig ar gyfer yr adolygiad hwn. Er enghraifft, canfu Kaiser et al. (2017) effeithiau gwan ac effeithiau tymor byr iawn mewn perthynas â grwpiau incwm isel, a dangosodd hefyd y gallai fod yn haws cael effaith ar ymddygiadau ariannol o ran cynilo ar gyfer ymddeol a chyllidebu o'i gymharu ag ymddygiad benthyca, gan nad yw gwella ymddygiad sy'n gysylltiedig â dyledion yn llwyddiannus, ar gyfartaledd. Yn yr un modd, canfu Miller et al. (2015) effeithiau cadarnhaol mewn perthynas â chynilo a chadw cofnodion ond nid o ran diffyg dalu credyd.²

Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth hon yn taflu rhywfaint o oleuni ar yr hyn sy'n gwneud ymyriadau yn fwy neu'n llai effeithiol:

1. Ymddengys bod effeithiau cadarnhaol yn gysylltiedig â darparu addysg ariannol ar **adeg addysgadwy briodol** – pan fo addysgu wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â phenderfyniadau sy'n berthnasol yn uniongyrchol, alluogi pobl i gymhwyso'u gwybodaeth mewn achos pendant sydd o ddiddordeb iddyn nhw (Kaiser et al. 2017; Goyal a Kumar, 2020; Fernandez et al., 2014).
2. Yn hytrach nag un ateb i bawb, mae **ymyriadau sydd wedi'u teilwra i grŵp targed hefyd yn fwy effeithiol** (Lusardi a Mitchel, 2014; Goyal a Kumar, 2020).
3. Mae rhai astudiaethau hefyd yn canfod, er bod addysg ariannol ar ei phen ei hun yn aneffeithiol i raddau helaeth o ran newid ymddygiadau ariannol, gall **cyfuno**

² Dylid nodi hefyd bod y llenyddiaeth hon yn pwysleisio y gallai effeithiau cadarnhaol fod yn gysylltiedig â'r math o astudiaeth a gynhaliwyd: mae astudiaethau cydberthynol yn canfod cysylltiadau cryfach nag astudiaethau arbrofol a lled-arbrofol, sy'n fwy cadarn o ran nodi effeithiau achosol.

ymyriadau (e.e. addysg ariannol, gosod nodau a chwmsela) atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng addysg a chanlyniadau (Carpena et al. 2015).

4. Mae tystiolaeth o'r rhan y mae dwyster rhaglen yn ei chwarae yn fwy cymysg – mae rhai astudiaethau'n nodi perthynas gadarnhaol, er efallai nid mewn perthynas â dyled na grwpiau incwm isel, fel a nodwyd uchod (Kaiser et al., 2017), ond nid yw eraill yn gwneud hynny (Fernandez, 2014).
5. **Mae gwneud addysg ariannol yn orfodol yn gysylltiedig ag effeithiau llai o faint** – gall hyn amlygu heriau o ran cyflawni effeithiau cadarnhaol a ddymunir ar y bobl hynny nad ydynt yn hunanddethol mesurau addysg (Kaiser et al., 2017).
6. Yn ddiweddar, rhoddwyd sylw i agweddau strwythurol, megis **cynhwysiant digidol**, i hybu llythrennedd ariannol a galluogrwydd ariannol (Bavafa et al. 2019). Ers 2017 bu gostyngiad yn nifer yr oedolion sydd â galluogrwydd ariannol isel yn y DU, a gellir priodoli hyn i ostyngiad yn nifer y bobl (yn enwedig pobl hŷn) sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol (Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, 2021).

Polisiau lles sy'n seiliedig ar asedau

Mae **polisiau lles sy'n seiliedig ar asedau wedi denu diddordeb arbennig oherwydd eu potensial o ran cynhyrchu 'effeithiau asedau'**: mae'n ymddangos bod dal asedau ariannol, hyd yn oed asedau o werth cymharol isel, yn arwain at fanteision ariannol ac anariannol, er enghraifft mewn perthynas â sefydlogrwydd teuluol, iechyd corfforol a llesiant seicolegol (Bynner a Paxton, 2001; Sherraden, 2003; McKnight, 2011). Er enghraifft, ceir tystiolaeth bod dal asedau yn cyfrannu at ddeilliannau o ran cyflogaeth, enillion, iechyd cyffredinol, a llesiant seicolegol yn ddiweddarach (McKnight, 2011; Lerman a McKernan, 2008). Gall annog ymddygiadau sy'n gysylltiedig â chynilo fod yn elfen bwysig o hybu symudedd cymdeithasol: er enghraifft, ceir tystiolaeth bod plant rhieni sydd ar incwm isel ond sydd â llawer o gynilion yn llawer nwy tebygol o brofi symudedd incwm at i fyny (Cramer et al., 2009).

Mewn adolygiad o dystiolaeth y DU a thystiolaeth ryngwladol, canfu Searle a Köppe (2014) bod cyllid cyfatebol ar gyfer cynilion; cofrestru awtomatig; cefnogaeth gan y llywodraeth; a gwarantau budd-daliadau yn ffyrdd allweddol o gynyddu darpariaeth ac o gynorthwyo aelwydydd incwm isel i gynilo. Mae cysylltu polisiau asedau ag addysg ariannol a gwasanaethau cymdeithasol – e.e. drwy gymorth ychwanegol a chynghor ariannol – yn cael effeithiau cadarnhaol hefyd. I'r gwrthwyneb, nid yw cymhellion treth o lawer o fudd i bobl sy'n profi tlodi, sydd yn hytrach o fudd i'r bobl hynny sy'n talu trethi uwch, a gallant gael effeithiau atchweliadol cryf yn gyffredinol.

Yn yr Unol Daleithiau, mae corff o lenyddiaeth (Schreiner a Scherraden, 2007; Sherraden, 2009) sy'n archwilio effeithiolrwydd Cyfrifon Datblygu Unigol, sy'n fath o

gyfrifon cynilo cyfatebol. Mae cyfrifon o'r fath wedi arddangos effeithiau cadarnhaol tymor byr, gan gynnwys o ran lefel asedau a phrofiadau o galedi ariannol (Mills et al., 2019). Fodd bynnag, daeth dyled i'r amlwg fel rhwystr i gynilo: roedd cyfranogwyr â dyled yn llai tebygol o wneud cyfraniadau i gyfrif, ac roeddent yn gwneud adneuon misol is, ar gyfartaledd, i'w Cyfrifon Datblygu Unigol (Schreiner et al., 2002). Yn ogystal, dros y tymor hwy (chwe blynedd ar ôl i'r rhaglen ddod i ben), ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth bod yr ymyriad wedi cael effaith mewn perthynas â pherchnogaeth tŷ, perchnogaeth busnes, cynilion ar gyfer ymddeol neu werth net cyffredinol. Mewn cysylltiad â hyn, gan na wireddwyd yr effaith a fwriadwyd ar gronni asedau, ni ellid dod o hyd i ganlyniadau seicolegol cadarnhaol, ddeng mlynedd ar ôl dechrau'r rhaglen.

Yn gyffredinol, mae canlyniadau cymysg polisïau lles sy'n seiliedig ar asedau yn awgrymu 'nid yw llawer yn mynd i'r afael â'r broblem sylfaenol fod aelwydydd incwm isel yn byw bywydau sy'n ansicr iawn yn ariannol ac nad oes ganddynt incwm sbâr i'w gynilo' (McKnight a Rucci, 2020, t.54). Felly dylid ystyried bod y polisïau hyn yn rhai cyflenwol yn hytrach na'u bod yn ddewis arall yn lle gwladwriaethau lles cryf (McKnight a Rucci, 2020). Mae beirniaid wedi dadlau y bu'r symudiad tuag at bolisïau lles sy'n seiliedig ar asedau ar ddiwedd y 1990au a'r 2000au, gan gynnwys cymhellion i gynyddu perchentyaeth, mewn gwirionedd yn fath o gwtogi'r wladwriaeth les ac i bob pwrpas yn symud y baich risg ar yr unigolyn ac i ffwrdd o'r wladwriaeth (Ansell, 2014; Ronald et al., 2015; Lennartz a Ronald, 2017). O ystyried effeithiau cadarnhaol asedau ariannol (yn rhai ariannol ac anariannol), mae'n hanfodol asesu'r cyd-destun polisi cyffredinol. Er enghraifft, ar waelod y dosbarthiad incwm, mae'n bosibl bod cynllun trethi a throsglwyddiadau yn annog pobl i beidio â chynilo (OECD, 2018). Mae'n bosibl bod rhaglenni sy'n amodol ar asedau isel yn tueddu i fod yn fwy buddiol i'r bobl hynny sydd ar incwm cronig o isel nag ydynt o ran mynd i'r afael â risgiau anwadalrwydd a symudedd – yn y DU, mae terfynau asedau mewn perthynas â chymhwysedd ar gyfer Credyd Cynhwysol yn enghraifft o hyn.

Gwasanaethau cynghori ar ddyledion

Mabwysiadwyd gwasanaethau cynghori ar ddyledion mewn sawl gwlad, a cheir tystiolaeth eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar reoli cyllid, lleihau dyledion ac atal dyledion pellach, dros y tymor byr yn ogystal â'r tymor hwy (Civic Consulting, 2014; Eurofound, 2020; Hartfree a Collard, 2014; Orton, 2010; YouGov, 2012). Dylid nodi bod astudiaethau'n aml yn dibynnu ar fesurau goddrychol o straen ariannol i archwilio datrys a lliniaru dyledion (Brackertz, 2014), a bod cyfranogwyr yn aml yn dewis derbyn cyngor eu hunain (Stamp, 2012). Fodd bynnag, er bod y llenyddiaeth yn awgrymu y gall gwasanaethau cynghori ar ddyledion gael effaith gadarnhaol, yn enwedig yn achos dyledwyr incwm isel, mae'r mesurau hyn yn fwy

tebygol o liniaru anawsterau ariannol yn hytrach na'u datrys, (Stamp, 2012). Ni fydd gwasanaethau cynghori ar ddyledion yn mynd i'r afael ag achosion strwythurol dyled aelwydydd incwm isel, ond gallant helpu i liniaru argyfyngau uniongyrchol, gohirio canlyniadau pellach dyled, a darparu gwybodaeth a sgiliau sy'n cynorthwyo pobl i ddatblygu strategaethau rheoli ariannol ar gyfer y tymor hwy. **Canfuwyd bod gwasanaethau cynghori ar ddyledion effeithiol hefyd yn cael effaith uniongyrchol a buddiol ar iechyd meddwl, llesiant cymdeithasol ac ansawdd bywyd** (Europe Economics, 2018).

Mae Eurofound (2020) yn cynnig trosolwg manwl o wasanaethau cynghori ar ddyledion yn yr UE. Mae'r adolygiad yn nodi rhwystrau i fynediad, megis diffyg capasiti sy'n effeithio ar amseroedd aros ac ansawdd y ddarpariaeth o wasanaethau; cynghorwyr nad ydynt yn gyhoeddus sy'n codi ffioedd ar ddefnyddwyr; a'r niferoedd prin sy'n manteisio ar y cynigion o ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth neu stigma cymdeithasol. **Dangoswyd bod rhaglenni effeithiol yn darparu cyngor wedi'i deilwra, eu bod yn seiliedig ar sefydlu perthnasau y gellir ymddiried ynddynt â chwsmeriaid, ond hefyd â chredydwyr ac awdurdodau, a'u bod yn dibynnu ar gynghorwyr cofrestredig, proffesiynol, sydd wedi derbyn hyfforddiant.**

Mewn perthynas â phobl sydd mewn tlodi, yn enwedig, mae'n bwysig ystyried sut y gall gwasanaethau cynghori ar ddyledion gynorthwyo pobl drwy eu helpu i gael fynediad at ystod o wasanaethau cymdeithasol eraill wedi'u teilwra (e.e. gofal iechyd meddwl, cyflogaeth a gwasanaethau lles). Felly, gall gwasanaethau cynghori ar ddyledion **fod yn bwynt cyswllt a sbarduno ystod o atgyfeiriadau at wasanaethau priodol**, gan arwain at ddull cyfannol y gellir ei ystyried yn agwedd allweddol ar ansawdd gwasanaeth (Eurofound, 2020; Dubois, 2012; Stamp, 2012).

Gwasanaethau rhyddhau o ddyled

Mae gwerthusiadau cadarn o effaith gwahanol atebion mewn perthynas â rhyddhau o ddyled a thalu dyledion yn parhau i fod yn brin. Mae tystiolaeth led-arbrofol o'r Unol Daleithiau yn canfod bod amddiffyn rhag methdal yn arwain at gynnydd cryf mewn incwm (wedi'i fesur fel y cynnydd yn enillion blynyddol ymylol y derbynnydd) a gostyngiadau mewn marwolaethau a blaengaeadau (Dobbie a Song, 2015). Dangosir bod rhaglenni rhyddhau o ddyledion morgais, pan gânt eu defnyddio mewn modd digon dwys, yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau blaengaeadau a thramgwyddau dyledion defnyddwyr (Agarwal, 2017).

Wrth edrych y tu hwnt i effeithiau ariannol rhyddhau o ddyledion, defnyddiodd Ong et al. (2019) dystiolaeth led-arbrofol i archwilio effaith rhyddhau o ddyled ar ddimensiynau seicolegol sy'n gysylltiedig â dyled ac, yn enwedig, ar y math o effeithiau meddyliol sydd, fel y trafodwyd uchod, yn peri disbyddu egni gwybyddol ac

emosiynol pobl yn ddifrifol ac yn cyfrannu at straen a dirywiad cyffredinol o ran llesiant. Canfuant fod rhyddhau o ddyled yn cael effeithiau cadarnhaol a sylweddol ar weithrediad gwybyddol ac yn lleihau'r tebygolrwydd o arddangos gorbryder a rhagfarn.

O ran gweithdrefnau talu dyledion, canfu Eurofound (2020) **rwystrau i fynediad sy'n gysylltiedig â dilyn dull rhy llym o gymhwyso meini prawf neu gostau gweinyddol/gweithdrefnol**. Mae'r rhain yn faterion hanfodol i system y DU hefyd (Collard et al., 2018). Canfu Eurofound (2020) fod gweithdrefnau ar draws yr UE, ar y cyfan, wedi dod yn symlach ac yn fyrrach, ond **mae'r graddau y mae'r mesurau hyn yn cynrychioli dechrau newydd i ddyledwyr yn dibynnu ar ystod o ffactorau, megis y canlynol:**

- **Y mathau o ddyledion a gaiff eu heithrio.** Ledled Ewrop, mae'r mathau o ddyled sydd bwysicaf i aelwydydd incwm isel yn cynnwys dyledion i awdurdodau cyhoeddus (e.e. rhent, cyfleustodau ac ôl-ddyledion treth, dirwyon, costau gofal iechyd),³ neu ddyledion sy'n deillio o fenthyca anffurfiol. Mae eithrio'r dyledion hyn mewn llawer o wledydd felly yn atal pobl rhag dechrau o'r newydd hyd yn oed yn achos y bobl hynny lle mae gweithdrefnau rhyddhau o ddyled yn llwyddiannus. Er bod rhai gwledydd (e.e. Norwy, Gwlad Groeg) wedi bod yn diwygio meini prawf eithrio, ni ellid dod o hyd i unrhyw asesiad o'u heffeithiau.
- Mae **amseru'n** hanfodol hefyd oherwydd os rhoddir cymorth rhyddhau o ddyled yn rhy hwyr gall achosi effeithiau corfforol, meddyliol a chymdeithasol dinistriol i'r dyledwyr, gan danseilio posibiliadau adsefydlu'r mesurau hyn.
- Er mwyn i weithdrefnau talu dyledion gael effaith barhaol ar wydnwch ariannol pobl, **mae'n bwysig eu bod yn darparu cymhellion i bobl wneud y mwyaf o'u hincwm a chwilio am waith yn ystod y cyfnod talu dyledion, neu eu bod yn unol, o leiaf, â'r cymhellion hyn.** Er mwyn cynyddu cymhellion, mae angen i bobl sylwi ar y gwahaniaeth ar unwaith, nid ar ôl ychydig flynyddoedd, neu ar ôl iddynt ad-dalu cyfran benodol o'r ddyled. Wrth osod cynlluniau taliadau neu drothwyon incwm mae angen hefyd ystyried ystod o ffactorau, gan gynnwys mynediad at wasanaethau megis gofal plant, addysg, trafndiaeth, tai, gofal iechyd a gofal hirdymor.

Gyda'i gilydd, mae hyn yn awgrymu y dylid ystyried atebion i ddyled yng nghydestun trefniadau nawdd cymdeithasol, yn unol â'r materion y mae aelwydydd incwm isel yn y DU yn eu hwynebu o ran dyled gwasanaethau cyhoeddus ac ad-dalu budd-

³ Mae hyn yn annhebygol o fod yn wir mewn perthynas â gofal iechyd a threthi incwm yn y DU, ond mae'n berthnasol yn achos trethi lleol fel y dreth gyngor.

daliadau. Yn Astudiaeth Achos 1, darperir enghreifftiau o fentrau arloesol ar gyfer rhyddhau o ddyled a thalu dyledion ar gyfer grwpiau risg.

Mae gwaith ar reoli dyledion mewn perthynas â dyledion treth, er enghraifft gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2019), wedi cynhyrchu cymariaethau traws gwlad er mwyn amlygu arferion gorau a strategaethau llwyddiannus. Yn bennaf, mae argymhellion yn seiliedig ar wneud defnydd datblygedig o dechnoleg, fel cloddio data a modelau rhagfynegol, i segmentu dyledwyr ar sail eu hanes talu a nifer o feini prawf risg. Ar wahanol gamau o reoli dyledion, gall hyn fod o gymorth i gyflawni'r canlynol:

- Nodi ac ymgysylltu'n rhagweithiol â'r bobl hynny sydd yn y perygl mwyaf o fynd i ddyled
- Cyfeirio achosion at y cam adfer priodol
- Datblygu cynlluniau talu personol
- Ystyried segmentau trethdalwr a chategorïau risg er mwyn llywio strategaethau cyfathrebu aml-sianel

Fodd bynnag, mae'r math hwn o astudiaeth yn canolbwyntio ar ddarparu canllaw ar ddatblygu strategaethau rheoli dyledion llwyddiannus, heb unrhyw asesiad o sut mae camau gweithredu arfaethedig yn effeithio ar leihau dyledion aelwydydd, neu ar dlodi ac allgáu cymdeithasol yn ehangach.

Mae astudiaethau diweddar wedi mynd i'r afael â symudiad tuag at 'datrysiadau dyledion sy'n seiliedig ar y farchnad' mewn llawer o wledydd (Gray et al., 2020). Mae'r 'atebion sydd wedi'u preifateiddio' hyn yn rhagweld y bydd cynlluniau hirdymor yn cael eu cwblhau gyda rhwymedigaethau ad-dalu sy'n uwch na'r rhai o dan weithdrefnau rhyddhau o ddyled – byddai'r Trefniadau Gwirfoddol Unigol (IVA) yng Nghymru a Lloegr yn perthyn i'r categori hwn. Gall yr atebion hyn fod yn broblemus am eu bod yn lleihau effaith ail-ddyrannu cymorth rhyddhau o ddyled, gan danseilio ei effeithiau economaidd buddiol (Möser, 2020). Mae'r materion hyn yn gysylltiedig â modelau ariannu ar gyfer gwasanaethau cynghori ar ddyledion, gan fod gan ddarparwyr gymhellion i sbarduno dyledwyr i wneud ad-daliadau hirdymor sy'n cynhyrchu incwm, yn hytrach na datrysiadau rhyddhau o ddyled statudol.

Mae'r llenyddiaeth hon yn pwysleisio bod gan bolisiâu rhyddhau o ddyledion a chyfraith ansolfedd bersonol **rôl amddiffyn cymdeithasol i'w chwarae, a bod atebion amgen i ddyled yn bwysig yn achos aelwydydd lle mae problemau'n debygol ac y mae prosesau methdalau yn aml yn rhy ddrud a chymhleth o ran biwrocratiaeth iddynt. Serch hynny, gellir ystyried bod y gostyngiad mewn methdaliadau a gweithdrefnau Gorchymyn Rhyddhau o Ddyled a welir yn y DU, ynghyd â'r cynnydd mewn Trefniadau Gwirfoddol Unigol a Chynlluniau Rheoli**

Dyledion, yn symudiad tuag at breifateiddio ansolfedd personol. Mae'r newid hwn yn rhoi llai o bwyslais ar rôl amddiffynnol rhyddhau o ddyled a mwy o bwyslais arno fel offeryn sy'n ceisio osgoi bygythiadau i sefydlogrwydd ariannol (Spooner, 2019; 2020).

Astudiaeth Achos 1: Atebion i ddyled — datblygiadau diweddar

Bu ystod o ddatblygiadau ym maes mentrau rhyddhau o ddyled a thalu dyledion, ond nid yw nifer o bolisïau addawol wedi cael eu gwerthuso mewn ffordd gadarn eto. Nododd Eurofound (2020) nifer o ddulliau arloesol sy'n ymwneud â threfniadau ar gyfer grwpiau risg penodol a allai fod yn berthnasol o ystyried y ffactorau sy'n sbarduno dyled ar aelwydydd yng Nghymru.

Mae rhai gwledydd wedi ceisio cyfuno gweithdrefnau talu dyledion â rhai mesurau cryfach sy'n amddiffyn plant ar yr aelwyd. Mae Deddf Ail-lunio Dyled 2016 Sweden, er enghraifft, yn addasu'r amserlen dalu o blaid aelwydydd â phlant, gan gynnwys dau fis o randaliadau am ddim. Mae mentrau eraill yn defnyddio systemau rhagweithiol a all helpu gydag ymyrryd yn gynnar ac sy'n mynd i'r afael â diffyg ymwybyddiaeth eang gydag atebion i ddyled sydd ar gael – er enghraifft drwy atgyfeiriadau gwasanaethau cyhoeddus neu drwy gydweithio â phartneriaid cymdeithasol (e.e. undebau llafur, cyflogwyr) sy'n gallu rhannu gwybodaeth am bobl sydd ar fin cael eu diswyddo. Ceir enghreifftiau o wasanaethau cynghori sy'n cysylltu'n rhagweithiol â chleientiaid posibl pan fônt yn cael rhybudd bod gan bobl ôl-ddyledion yn achos, er enghraifft, biliau cyfleustodau neu rent tai cymdeithasol (Yr Iseldiroedd), neu pan fo achos llys ynghylch gorchymyn troi allan (Awstria).

Mynediad at gyfleoedd credyd

Yn aml, cydnabyddir bod dadreoleiddio ariannol a rhwydi diogelwch cymdeithasol annigonol yn creu amodau strwythurol sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o fynd i anawsterau ariannol (Ferretti, 2016). O ganlyniad i argyfwng ariannol 2008, yn enwedig, mae mesurau rheoleiddio wedi bod ar flaen y gad o ran ymdrechion i fynd i'r afael ag allanolion a methiannau'r farchnad (Cerutti et al., 2018). Mae hyn wedi arwain at bolisïau macro-ddarbodus a micro-ddarbodus a welodd fesurau rheoleiddiol yn cael eu cymhwyso, er enghraifft, i gyfraddau llog, darparu gwybodaeth, ac asesu teilyngdod i gael credyd.

Ceir cydnabyddiaeth eang bellach fod rheoleiddio credyd yn fesur ataliol hanfodol ar gyfer diogelu defnyddwyr (Eurofound, 2020). Felly, gall rheoleiddio chwarae rhan

aillddosbarthu a chynhwysol bwysig, er enghraifft drwy symud risgiau o ddefnyddwyr i gyflenwyr (Ferretti a Vandone, 2019). Mae cyfleoedd credyd ffurfiol a rheoledig yn hanfodol er mwyn osgoi'r risgiau a'r gwendidau cynyddol sy'n gysylltiedig â benthyca anffurfiol (Eurofound, 2013). Ar yr un pryd, **mae mynediad at wasanaethau ariannol yn elfen allweddol o gyfranogiad a rheoleiddio economaidd, a cheir tystiolaeth y gall cyfyngiadau ar fenthyca arwain at ganlyniadau negyddol ar sefyllfa ariannol gyffredinol aelwydydd ac ar gynhwysiant ariannol** (Badarinza, 2016; Zinman, 2010).

Mae capiau cyfradd llog yn arf i amddiffyn cleientiaid sydd mewn perygl rhag arferion benthyca rheibus – fel a nodwyd eisoes, mae pobl ag incwm isel a mynediad gwael at gredyd yn aml yn dibynnu ar fenthyciadau cymharol fach sydd â chyfraddau llog uchel. Mae capiau, sy'n amrywio o ran eu cwmpas a'u math, wedi cael eu defnyddio'n helaeth ledled y byd (Maimbo et al., 2014) a chafwyd llawer o gyfyngiadau tynhau deos y blynyddoedd diwethaf (Ferrari et al., 2018). Fodd bynnag, ceir tystiolaeth bod capiau ar gyfraddau llog yn aml yn arwain at gyfyngu ar fynediad at gyllid, yn enwedig yn achos segmentau iau a thlotach o'r boblogaeth, a hynny oherwydd bod benthycwyr risg uchel yn cael eu heithrio o'r system ariannol ffurfiol yn y pen draw (Ellison a Forster, 2006; Madeira, 2019, Ferrari, 2018). Mae hyn yn adlewyrchu profiad y DU gyda chapiau ar gredyd tymor byr, cost uchel (Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, 2017). Ymhlith sgil-effeithiau eraill a nodir yn y llenyddiaeth ryngwladol mae cynnydd mewn ffioedd a chomisiynau nad ydynt yn ymwneud â llog (sydd yn eu tro yn lleihau tryloywder prisiau, yn cymhlethu'r system, ac felly'n ymwreiddio anfanteision o ganlyniad i wahaniaethau mewn llythrennedd ariannol), nifer is o sefydliadau, a llai o ganghennau.

Mae'r farchnad gredyd cost uchel yn addasu ac yn esblygu – er gwaethaf rheoleiddiadau sylweddol sydd wedi bod mewn grym mewn perthynas â'r sector yn y DU ers 2014, mae cynhyrchion credyd cost uchel wedi addasu o amgylch y rheoliad a gyflwynwyd ar yr un pryd â manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan dechnolegau digidol, gan barhau i fod yn ffynhonnell fawr o ddyled o ganlyniad (Aldhoni, 2021). Mae rhywfaint o dystiolaeth o'r Unol Daleithiau yn dangos nad yw'n ymddangos bod gwahardd atebion credyd cost uchel yn llwyr, hyd yn oed, yn effeithiol yn achos cwsmeriaid ar incwm isel symudodd i ddefnyddio dewisiadau amgen nad ydynt wedi'u gwahardd (Friedline et al., 2017).

Yn gyffredinol, mae'r llenyddiaeth hon yn pwysleisio mai un o **faterion allweddol y mesurau hyn yw'r ffaith nad ydynt yn mynd i'r afael ag achosion systematig y galw am gynhyrchion cost uchel** (Ferrari, 2018; Maimbo, 2014). Mae'r galw am gynhyrchion cost uchel yn adlewyrchu sbardunau allweddol a archwiliwyd eisoes yn yr adolygiad hwn, megis ansicrwydd ac ansefydlogrwydd ariannol, neu annigonolrwydd darpariaeth les y wladwriaeth; ond hefyd arianoli cynyddol sy'n creu

system gredyd ddwy haen (Rowlingson et al., 2016; Dearden, 2010; Ferretti, 2016). Er mwyn deall y galw am y gwasanaethau hyn, mae mewnwelediadau i brofiadau bywyd benthycwyr yn arbennig o bwysig. Mae Rowlingson et al. (2016) yn archwilio safbwyntiau benthycwyr drwy ddulliau ansoddol, ac yn canfod bod gan y cynhyrchion hyn nodweddion y mae benthycwyr yn eu gwerthfawrogi – mae'r broses ymgeisio ar-lein yn syml a dienw (yn unol â'u hawydd i gadw eu hurddas ac osgoi'r cywilydd sy'n gysylltiedig â dyled); mae mynediad at gredyd yn gyflym, a gall y broses o baru eu hanghenion gwariant bob dydd ac ad-dalu fod yr un mor gyflym, yn unol â'u hawydd i beidio â chael baich dyled uwch eu pennau. Yn ogystal, mae'r profiadau hyn yn amlygu profiadau negyddol gyda benthycwyr manwerthu wyneb yn wyneb, annigonolrwydd cynhyrchion amgen (e.e. oherwydd y mae'n bosibl eu bod yn cynnig mwy o gredyd na'r hyn sydd ei angen), ond hefyd yr awydd i fod yn gyfrifol a pheidio â dod yn faich ar y teulu neu ffrindiau.

Mae darparu dewisiadau amgen digonol mewn perthynas â'r anghenion hyn wedi ysgogi diddordeb mewn benthyciadau gan undebau credyd, cynlluniau cyllid cymunedol a chynlluniau credyd di-log (gweler Astudiaeth Achos 2). Mae cyllid cymunedol/cymdeithasol ac undebau credyd wedi bod yn tyfu mewn sawl rhan o'r byd, gan gynnwys Ewrop (EC, 2020). Ymhlith y cynhyrchion ariannol craidd a gynigir y mae micro-fenthyciadau a chynhyrchion cynilo personol, ond hefyd gwasanaethau anariannol (e.e. addysg a chyngor ariannol). Mae llywodraethau, yn enwedig yng Ngorllewin Ewrop, wedi bod yn hyrwyddo'r syniad o'u hehangu mewn ymdrech i wella cynhwysiant ariannol grwpiau difreintiedig (EC, 2020). Mae'r DU wedi ceisio ehangu mynediad at ddewisiadau amgen a allai fod yn addas, fel benthyciadau gan undebau credyd (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2012; Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, 2019).

Astudiaeth Achos 2: Cynlluniau benthyciadau di-log yn Awstralia

Y Cynllun Benthyciadau Di-log (NILS) yw'r rhaglen microgyllid fwyaf yn Awstralia ac mae'n cynnig benthyciadau di-log (hyd at \$1,200) i helpu pobl ar incwm isel i brynu nwyddau a gwasanaethau hanfodol ar gyfer y cartref. Mae hyn yn unol â'r ffaith bod yr angen am nwyddau cartref hanfodol yn ffactor allweddol sy'n sbarduno'r angen am gredyd sy'n arwain aelwydydd incwm isel i droi at gynhyrchion credyd cost uchel (Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, 2019). Mae'r Cynllun Benthyciadau Di-log yn cynnwys rhwydwaith o fwy na 600 o sefydliadau cymunedol (e.e. canolfannau ieuenctid, llochesi, eglwysi ac ati). Mae'r Cynllun Benthyciadau Di-log yn enghraifft o gredyd cymunedol cylchol: bob tro y ceir ad-daliad, trefnir bod yr arian ar gael i rywun arall yn y gymuned.

Cynhaliodd y Ganolfan Effaith Gymdeithasol werthusiad o'r Cynllun Benthyciadau Di-log a ddangosodd ganlyniadau cadarnhaol o ran gwelliannau mewn galluogrwydd ariannol yn ogystal â lefelau llai o straen a phryder, mwy o hunanhyder a hunan-barch, a gwelliannau mewn iechyd corfforol, perthnasoedd personol, a chyfranogiad yn y gymdeithas (CSI, 2014). Nododd cleientiaid eu bod wedi lleihau eu defnydd o fenthyciadau diwrnod cyflog a darparwyd ymylol o ganlyniad i'r Cynllun Benthyciadau Di-log.

Ers hynny, cynhaliwyd rhaglenni peilot er mwyn cyrraedd poblogaethau penodol sydd wedi'u heithrio, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell (Cain ac Eccles, 2017), ac fe'u datblygwyd drwy bartneriaethau â sefydliadau cymunedol sydd eisoes yn gweithredu yn y lleoliadau hyn. Ceisiodd y rhaglenni ehangu ar y Cynllun Benthyciadau Di-log mewn amryw o ffyrdd: er enghraifft, drwy fentrau allgymorth neu ddarparu'r Cynllun Benthyciadau Di-log mewn undebau credyd. Mae canlyniadau cadarnhaol yn adleisio'r rhai a gafwyd yn y gwerthusiad blaenorol.

Fodd bynnag, roedd gwerthusiad y Ganolfan Effaith Gymdeithasol yn seiliedig ar asesiad hunangofnodedig ac ni chafodd unrhyw grŵp cymharu ei gynnwys. Roedd y canlyniadau'n amrywio mewn gwahanol leoliadau, a amlygodd nifer o feini prawf llwyddiant allweddol, fel a ganlyn:

- Ffocws ar anghenion ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol cleientiaid;
- Buddsoddiad mewn datblygu perthnasoedd ymddiriedus;
- Aseidiadau benthycia hyblyg;
- Dull cyfannol sy'n gysylltiedig ag amrediad o wasanaethau cymdeithasol;
- Dull wedi'i deilwra i drefnu dosbarthu eitemau i leoliadau anghysbell iawn;
- Dull wedi'i deilwra i addasu'r Cynllun Benthyciadau Di-log i'r cyd-destun penodol, gan feithrin perthnasoedd cryf â chleientiaid.

Mae beirniaid wedi pwysleisio bod llywodraeth Awstralia wedi buddsoddi'n sylweddol yn y mathau hyn o atebion microgyllid er gwaethaf prinder tystiolaeth gadarn o'u heffeithiolrwydd ledled y byd ac yng nghyd-destun Awstralia (Gerard a Johnston, 2019).⁴ Mae cymorthdaliadau a rheoleiddio

⁴ Dylid nodi bod hwn yn faes cymhleth yn y llynyddiaeth, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddefnyddio microgyllid mewn gwledydd datblygol ac yn cwestiynu ei effeithiolrwydd o ran lleihau tlodi (Awawryi, 2014). Ar yr un pryd, canfuwyd canlyniadau mwy cadarnhaol mewn astudiaethau sy'n canolbwyntio ar ansawdd bywyd, ac yn enwedig o ran galluedd cyflogi (Chilova et al., 2015; Anand et al., 2019).

ffafriol wedi cefnogi twf y sector tra bod elfennau allweddol o nawdd cymdeithasol wedi'u gwanhau (Kelly a Johnston, 2019).

Mae'n beryglus meddwl am 'fuddsoddi cymdeithasol', ar ffurf cymorth ar gyfer yr atebion credyd fforddiadwy hyn, fel rhywbeth a allai gymryd lle lefel ddigonol o amddiffyn cymdeithasol, yn enwedig oherwydd bod annigonolrwydd y rhwyd ddiogelwch yn ffactor allweddol sy'n sbarduno tloidi ac, o'r herwydd, ceir y galw mawr am gredyd — ac, fel y nodwyd, nid yw'r mathau hyn o atebion, yn yr un modd â mathau eraill o gyllid cymunedol, yn mynd i'r afael â mater y galw am y gwasanaethau hyn.

Mae gwerthuso'r dewisiadau eraill hyn hefyd yn bwysig oherwydd bod cryn le i ymyrryd ar lefel leol. Er bod y sector wedi ehangu, erys diffyg ymwybyddiaeth (Rowlingson et al., 2016; Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, 2019) a phrinder tystiolaeth i gefnogi effeithiolrwydd polisiâu o'r fath, yn enwedig mewn perthynas â chyrraedd aelwydydd incwm isel (Mosedale et al., 2018). Mae cyfres o gyfyngiadau sy'n tanseilio'u heffeithiolrwydd fel offeryn ar gyfer lleihau tloidi: cyfansoddiadau a rheoliadau benthyca ariannol llym, credyd annigonol, a diffyg gallu ac arbenigedd sy'n rhwystro ymdrechion i'w hehangu.⁵ O ran undebau credyd yn benodol, mae eu potensial yn cael ei danseilio hefyd gan densiynau ynghylch cwrmpas y sefydliadau hyn eu hunain: er enghraifft rhwng y rheini sy'n croesawu rhaglen ehangu a moderneiddio'r llywodraeth (gyda'r posibilïadau o gynyddu mynediad aelwydydd incwm isel at gredyd), a'r rheini sydd am gadw swyddogaeth fwy traddodiadol sy'n canolbwyntio ar aelodau (Sinclair, 2014). Ar ben hynny, mae dibynnu'n helaeth ar ryngweithiadau wyneb yn wyneb (Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, 2019) nid yn unig yn effeithio ar gyrhaeddiad yr atebion i gyllid cymunedol ac undebau credyd, ond mae hefyd yn gwrthdweud rhywfaint o'r dystiolaeth a nodir uchod ynghylch dewisiadau defnyddwyr.

Yn gyffredinol, dim ond cyfran ymylol o'r boblogaeth y mae'r atebion lleol hyn yn gallu eu cyrraedd. Mae hefyd yn bwysig nodi, yn gyffredinol, yn enwedig lle mae'r galw yn cael ei sbarduno gan heriau dyddiol o gael dau ben llinyn ynghyd, y gall llwybrau amgen at gredyd liniaru'r hyn sy'n achosi ansicrwydd ariannol, ond nid ei ddileu.

Heriau a ffactorau hwyluso

⁵ Gweler ABCUL (Association of British Credit Unions Limited) (2019) mewn perthynas â'r Prosiect Ehangu Undebau Credyd.

Mae'r berthynas gyd-atgyfnerthol rhwng dyled a tlodi yn un o'r heriau cyffredinol yn y maes hwn. Dyma'r rheswm pam y byddai angen i lywodraethau sy'n ceisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol dyled ganolbwyntio ar yr hyn sy'n sbarduno tlodi heddiw, gan gynnwys rôl y system nawdd cymdeithasol. Amlygir hyn yn gryf yn y llenyddiaeth (Lea, 2021; Atfield, 2016). Mae diwygiadau cyni wedi lleihau yn arw rôl y rhwyd ddiogelwch y mae nawdd cymdeithasol yn ei chwarae yng Nghymru ac yn y DU, ac mae gwrthdroi rhai o'r rhain yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â dyled aelwydydd (Gardner et al. 2020). Y tu hwnt i agweddau sy'n ymwneud â haelioni'r system, mae achos cryf dros newid agweddau ar gynllun Credyd Cynhwysol a'i system o ôl-daliadau ac ad-dalu blaendaliadau (Cooper a Hills, 2020). Mae diwygiadau eraill sydd eisoes yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru ac nad ydynt wedi'u cwmpasu yn yr adolygiad hwn, er enghraifft diwygio'r dreth gyngor, yn arbennig o bwysig o ystyried nodweddion atchweliadol y system bresennol a'r rhan allweddol y mae'r math hwn o ôl-ddyledion yn ei chwarae mewn dyled. Ceir crynodeb o'r heriau a'r ffactorau hwyluso sy'n ymwneud â dyled aelwydydd a pholisïau a rhaglenni i fynd i'r afael â'r mater yn Nhabl 1.

Tabl 1: Heriau a ffactorau hwyluso

Heriau	Ffactorau hwyluso
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r berthynas gyd-atgyfnerthol rhwng tlodi a dyled broblemus, yn her allweddol: mae mynd i'r afael ag achosion sylfaenol dyled yn gofyn am ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r hyn sy'n sbarduno tlodi, gan gynnwys y ffactorau sy'n gysylltiedig â'r system nawdd cymdeithasol. • Mae diffyg ymwybyddiaeth o wasanaethau ac atebion dyled addas yn ogystal â phrofiadau negyddol o gywilydd a stigma, wedi'u cymhlethu gan arferion casglu dyledion ymosodol a gorfodol, yn erydu ymddiriedaeth ac yn rhwystro mynediad at wasanaethau a chynhyrchion dyled fforddiadwy. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae dull cyfannol sy'n deall anghenion dyledwyr ac yn mynd i'r afael â'u hamgylchiadau penodol, gan feithrin cydweithio â gwasanaethau cymdeithasol eraill, yn hybu'r nifer sy'n manteisio ar atebion i ddyled a chynhyrchion credyd fforddiadwy, a'u heffeithiolrwydd. • Mae canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar yn hwyluso lleihau dyled aelwydydd a'i heffaith – mae hyn yn golygu nodi 'pwyntiau sbardun', mabwysiadu strategaethau atgyfeirio cynnar a dulliau rhagweithiol o gyrraedd aelwydydd lle mae problemau'n debygol. • Mae partneriaethau cryf â gweithredwyr lleol a gweithredwyr

- Mae allgáu digidol yn cyfrannu at allgáu ariannol. Er gwaethaf ymdrechion i hybu llythrennedd ariannol, erys heriau o ran manteisio'n llawn ar ddatblygiadau technolegol er mwyn dod o hyd i atebion credyd fforddiadwy.
- Mae preifateiddio gwasanaethau cynghori ar ddyledion a mecanweithiau datrys dyledion yn rhwystro mynediad pobl at yr atebion mwyaf addas a buddiol o ran datrys dyledion.
- yn y gymdeithas sifil yn hybu cyrhaeddiad ymyriadau a'u hamseroldeb, ac yn sicrhau mwy o ymddiriedaeth dyledwyr mewn gwasanaethau a'u ymwybyddiaeth ohonynt.
- Mae dyledion i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys ôl-ddyledion y dreth gyngor) yn sylweddoliawn yn achos aelwydydd sy'n profi tlodi ac amddifadedd. Mae hwn yn faes lle gall Llywodraeth Cymru gael dylanwad sylweddol.

Casgliad

Mae cymryd camau i liniaru, atal ac adsefydlu dyled aelwydydd yn bwysig o ystyried y cynnydd diweddar mewn dyledion problemus ymhlith aelwydydd incwm isel, a'r rhan y mae dyled yn ei chwarae o ran ymwreiddio tlodi a chael effaith ar sawl agwedd ar allgáu cymdeithasol. Nid yw dulliau cyffredin o fynd i'r afael â dyled aelwydydd (e.e. gwasanaethau cynghori ar ddyledion a rhyddhau o ddyled, rheoleiddio a mynediad gwell at gyfleoedd credyd cost isel, hybu llythrennedd ariannol a galluogrwydd ariannol, a pholisïau lles sy'n seiliedig ar asedau) fel arfer yn mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol sy'n sbarduno'r galw am fenthyciadau ymhlith aelwydydd incwm isel (sef incwm isel). Gan hynny, ni ellir eu hystyried yn atebion syml ar gyfer gwrthdroi'r tueddiadau hyn. Fodd bynnag, bydd angen i strategaeth cynhwysiant ariannol integredig, gyfannol gynnwys yr holl elfennau hyn, a'u hystyried ar y cyd ag elfennau eraill sy'n berthnasol i adnoddau ariannol aelwydydd a'r ffordd y maent yn rhyngweithio â'r system nawdd cymdeithasol.

Trosglwyddo i Gymru

Mae cynhwysiant ariannol yn faes lle gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru wedi **cydnabod ers cryn amser bod angen hwyluso ymateb cyfannol a chydlynol asiantaethau ar y cyd i gynhwysiant ariannol.**

Yn unol â'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i Gymru a luniwyd yn ddiweddar, a chyflwyno'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) ar gyfer cymorth brys, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn weithgar mewn sawl maes polisi a drafodir yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys y canlynol:

- Gwella mynediad at gredyd fforddiadwy (gan gynnwys cymorth ar gyfer ehangu undebau credyd);
- Buddsoddi'n uniongyrchol mewn gwasanaethau cynghori a datblygu safonau system sicrhau ansawdd — mae cyllid datganoledig ar gyfer gwasanaethau cynghori ar ddyledion yn ei gwneud yn bosibl i Gymru ddatblygu ei dull integredig ei hun o gomisiynu gwasanaethau cynghori ar ddyledion;
- Ymrwymiad i hybu llythrennedd ariannol a galluogrwydd ariannol.

Mae gweithgareddau eraill a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â diwygio'r dreth gyngor, yn arbennig o bwysig, o ystyried y ffactorau sy'n sbarduno dyled a nodwyd ymhlith teuluoedd incwm isel.

Camau gweithredu addawol

Daw'r adran hon i ben gyda **chamau gweithredu addawol** i'w hystyried yng nghydestun Cymru fel rhai sy'n deillio o'r dadansoddiad o'r llenyddiaeth ryngwladol:

1. Dylai **dull sy'n mynd i'r afael ag achosion dyled aelwydydd** fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r berthynas gyd-atgyfnerthol rhwng tlodi a dyled.
 - Dylid ystyried strategaethau i gynyddu incwm gwario a lleihau gwariant (e.e. cost gofal plant, bwyd, tanwydd, trafnidiaeth, tai) er mwyn **cynyddu adnoddau aelwydydd**.
 - **Mae diwygio'r dreth gyngor** yn arbennig o bwysig yng ngoleuni nodweddion atchweliadol y system gyfredol a'r rhan allweddol y mae ôl-ddyledion o'r math hwn yn ei chwarae fel un o achosion dyled.
 - Er ei fod y tu hwnt i gylch gwaith pwerau datganoledig Llywodraeth Cymru, mae achos cryf dros alw am **newidiadau i gynllun Credyd Cynhwysol a'i system o ôl-daliadau ac ad-dalu blaendaliadau**.
2. **Mae mesurau lliniaru ac adsefydlu** yn bwysig er mwyn cynnig dechrau newydd a lliniaru effeithiau negyddol dyled ar iechyd a llesiant.
 - **Gall mwy o gydgysylltu rhwng gwasanaethau cyngori ar ddyledion ac asiantaethau a gwasanaethau eraill** helpu i nodi aelwydydd sydd mewn perygl o fynd i ddyled a hwyluso ymyriadau cynnar. Gall gwasanaethau cyngori ar ddyledion hefyd fod yn bwynt cyswllt a sbarduno amrywiaeth o atgyfeiriadau i wasanaethau priodol. Dylid gwerthuso cyfleoedd i rannu data.
 - **Gall cysylltiadau gwell rhwng gwasanaethau cyngori ar ddyledion a rhyddhau o ddyled** fynd i'r afael â diffyg ymwybyddiaeth o ddulliau o ddatrys dyledion. Gall hyn gryfhau diogelwch defnyddwyr ac atal dyledwyr rhag gwneud trefniadau anaddas.

Cyfeiriadau

Agarwal, S., Amromin, G., Ben-David, I., Chomsisengphet, S., Piskorski, T., a Seru, A. (2017). **Policy Intervention in Debt Renegotiation: Evidence from the Home Affordable Modification Program.** *Journal of Political Economy*, 125(3), 654-713.

Aldohni, A.K. (2021). **The Accessibility of Credit and the Protection of Consumers in the High-Cost Credit Sector: A Multifaceted Challenge.** *Law and Contemporary Problems*, (84), 197-213.

Anand, P., Saxena, S., Gonzalez, R., a Dang, H.H. (2019). **Can Women's Self-Help Groups Contribute to Sustainable Development? Evidence of Capability Changes from Northern India.** Papur Gweithio Ymchwil Polisi 9011. Banc y Byd: Washington.

Associations of British Credit Unions Limited. (2019). **A Lessons Learned Review of the Credit Union Expansion Project.** Cyrchwyd o: <https://www.pccu.co.uk/wp-content/uploads/2019/02/cuep-review-full-document-final-060219-2.pdf>

Atfield, G., Lindley, R., ac Orton, M. (2016). **Living with debt after advice.** Friends Provident Foundation: Efrog.

Awaworyi, S.K. (2014). **The Impact of Microfinance Interventions: A Meta-analysis.** Papurau Gweithio Economeg Monash 03-14, Prifysgol Monash, Yr Adran Economeg.

Badarinza, C., Campbell, J.Y., a Ramadorai, T. (2016). **International Comparative Household Finance.** *Annual Review of Economics* (8), 111-144.

Bavafa, H., Liu, J., a Mukherjee, A. (2019). **Building Financial and Health Literacy at Older Ages: The Role of Online Information.** *Journal of Consumer Affairs*, 53(3), 877-916.

Behrman, J.R., Mitchell, O., Soo, CE, a Bravo, D. (2012). **How Financial Literacy Affects Household Wealth Accumulation.** *American Economic Review*, 102(3), 300-304.

Beshears, J., Choi, J., Laibson, D., a Madrian, B. (2018). **Behavioral Household Finance**, yn Bernheim, B.D., DellaVigna, S., Laibson, D. (goln) *Handbook of Behavioral Economics: Applications and Foundations 1*, North-Holland, 177-276.

The Bevan Foundation. (2009). **Cydraddoldeb yng Nghymru: Adolygiad ymchwil.** Merthyr Tudful: The Bevan Foundation. Cyrchwyd o:

<https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/research-report-11-equality-issues-in-wales-research-review.pdf> Ceir crynodeb yma:

<https://www.equalityhumanrights.com/cy/file/10751/download?token=3y8j7meo>

The Bevan Foundation. (2020). **Transforming Wales: how Welsh public services and benefits can reduce poverty and inequality**. Merthyr Tudful: The Bevan Foundation. Cyrchwyd o: <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2020/10/Transforming-Wales-through-public-services-and-benefits-FINAL.pdf>

Bialowolski, P., Weziak-Bialowolska, D., a McNeely, E. (2021). **The Role of Financial Fragility and Financial Control for Well-Being**. Social Indicators Research.

Blanc, J., Porpiglia, A., Teppa, F., Zhu, J., a Ziegelmeier, M. (2015). **Household Saving Behaviour and Credit Constraints in the Euro Area**. Papur Gweithio ECB Rhif 1790, Banc Canolog Ewrop.

Brackertz, N. (2014). **The impact of financial counselling on alleviating financial stress in low income households: a national empirical study**. Social Policy and Society, 13(3), 389-407.

Bramley, G., a Besemer, K. (2018). **Financial inclusion, financial stress and debt**, yn Bramley, G. a Bailey, N. (goln) *Poverty and Social Exclusion in the UK: Vol 2: The Dimensions of Disadvantage*, University Press Scholarship.

Bunn, P., a Rostom, M. (2015). **Household debt and spending in the United Kingdom**. Papurau Gwaith Banc Lloegr, 554, Banc Lloegr.

Bynner, J., a Paxton, W. (2001). **The Asset-Effect**. Llundain: IPPR.

Cain, R., ac Eccles, K. (2017). **NILS in Far North Queensland. Evaluation of the REACH funding**, Good Shepard Microfinance. Cyrchwyd o: https://goodshep.org.au/wp-content/uploads/2020/12/Far-North-Queensland-Reach-NILS_evaluation_Final.pdf

Carpena, F., Cole, S., Shapiro, J., a Zia, B. (2015). **The ABCs of Financial Education: Experimental Evidence on Attitudes, Behavior, and Cognitive Biases**. Papur Gweithio Ymchwil Polisi Banc y Byd 7413. Banc y Byd: Washington.

Carter, I. (2022a). **Poverty and social exclusion in Wales**. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Carter, I. (2022b). **Poverty and social exclusion in Wales. Review of lived experience evidence.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Chliova, M., Brinckmann, J., a Rosenbusch, N. (2015). **Is microcredit a blessing for the poor? A meta-analysis examining development outcomes and contextual considerations.** Journal of Business Venturing 30(3), 467-487.

Civic Consulting. (2014). **The Over-Indebtedness of European Households: Updated Mapping of the Situation, Nature and Causes, Effects and Initiatives for Alleviating its Impact.** Adroddiad Civic Consulting: Brwsel.

Civic Consulting of the Consumer Policy Evaluation Consortium. (2013). **The Over-Indebtedness of European Households: Updated Mapping of the Situation, Nature and Causes, Effects and Initiatives for Alleviating Its Impact. Final Report, Part 1.** Cyrchwyd o: https://ec.europa.eu/info/sites/default/files/final-report-on-over-indebtedness-of-european-households-synthesis-of-findings_december2013_en.pdf

Collard, S., Kinloch, C., a Little, S. (2018). **Debt Solutions in the UK. Recommendations for change.** Adroddiad Money Advice Service. Cyrchwyd o: https://www.bristol.ac.uk/media-library/sites/geography/pfrc/pfrc1801_mas-debt-solutions.pdf

Dearden, C., Goode, J., Whitfield, G., a Cox, L. (2010). **Credit and debt in Chapter heading low-income families.** Joseph Rowntree Foundation: Efrog. Cyrchwyd o: <https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/credit-debt-low-incomes-full.pdf>

Yr Adran Gwaith a Phensiynau. (2012). **DWP Credit Union Expansion Project, Feasibility Study Report.** Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Deuflhard, F., Georgarakos, D., ac Inderst, R. (2019). **Financial literacy and savings account returns.** Journal of the European Economic Association, 17(1), 131-164.

Dobbie, W., a Song, J. (2015). **Debt Relief and Debtor Outcomes: Measuring the Effects of Consumer Bankruptcy Protection.** American Economic Review, 105(3), 1272-1311.

Dubois, H. (2012). **Household debt advisory services in the European Union.** Eurofound: Dilyn.

Dutton, A., a Hardy, G. (2020). **Coronavirus Debts. Estimating the size of lockdown arrears in Wales.** Cyngor ar Bopeth.

Ellison, A., a Forster, R. (2006). **The Impact of Interest Rate Ceilings: The Evidence from International Experience and the Implications for Regulation and Consumer Protection in the Credit Market in Australia.** Cyhoeddiadau Policis: Y Deyrnas Unedig.

Eurofound. (2013). **Household over-indebtedness in the EU: The role of informal debts.** Swyddfa Gyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd: Lwcsembwrg.

Eurofound. (2020). **Addressing household over-indebtedness.** Swyddfa Gyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd: Lwcsembwrg.

Y Comisiwn Ewropeaidd. (2020). **Microfinance in the European Union: Market analysis and recommendations for delivery options in 2021-2027.** Adroddiad Terfynol, Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chynhwysiant: Lwcsembwrg.

Europe Economics. (2018). **The Economic Impact of Debt Advice.** Adroddiad Money Advice Service. Cyrchwyd o: https://masassets.blob.core.windows.net/cms/files/000/000/898/original/Economic_Impact_of_Debt_Advice_-_main_report.pdf

Fernandes, D., Lynch Jr., J G., a Netemeyer, R.G. (2014). **Financial Literacy, Financial Education, and Downstream Financial Behaviors.** Management Science 60(8), 1861–1883.

Ferrari, A., Masetti, O., a Ren, J. (2018). **Interest Rate Caps: The Theory and The Practice.** Papur Gweithio Ymchwil Polisi 8398. Banc y Byd: Washington.

Ferretti, F. (2016). **The Over-Indebted European Consumers: Quo Vadis Personal Insolvency Law?** European Law Review (6), 843-864.

Ferretti, F., a Vandone, D. (2019). **Cyflwyniad**, yn *Personal Debt in Europe: The EU Financial Market and Consumer Insolvency*. Caergrawnt: Cambridge University Press, 1-10.

Financial Capability. (2015). **Financial Capability Strategy for Wales.** Cyrchwyd o: <https://masassets.blob.core.windows.net>

Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. (2016). **Tougher rules for payday lenders take effect.** Cyrchwyd o: <https://www.fca.org.uk/news/news-stories/tougher-rules-payday-lenders-take-effect>

Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. (2017). **Price cap research main report.** Cyrchwyd o: <https://www.fca.org.uk/publication/research/price-cap-research.pdf>

Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. (2019). **Alternatives to high cost credit report**. Cyrchwyd o: <https://www.fca.org.uk/publication/research/alternatives-high-cost-credit-report.pdf>

Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. (2021). **Financial Lives 2020 survey: the impact of coronavirus Key findings from the FCA's Financial Lives 2020 survey and October 2020 Covid-19 panel survey**. Cyrchwyd o: <https://www.fca.org.uk/publication/research/financial-lives-survey-2020.pdf>

Fitzpatrick, S., Bramley, G., Sosenko, F., Blenkinsopp, J., Wood, J., Johnsen, S., Littlewood, M., a Watts, B. (2018). **Destitution in the UK 2018**. Joseph Rowntree Foundation: Efrog.

Fitzpatrick, S., Bramley, G., Blenkinsopp, J., Wood, J., Sosenko, F., Littlewood, M., Johnsen, S., Watts, B., Treanor, M., a McIntyre, J. (2020). **Destitution in the UK 2020**. Joseph Rowntree Foundation: Efrog.

French, D., a McKillop, D. (2017). **The impact of debt and financial stress on health in Northern Irish households**. *Journal of European Social Policy*, 27(5), 458-473.

French, D., a Vigne, S. (2019). **The causes and consequences of household financial strain: A systematic review**. *International Review of Financial Analysis* 62, 150-156.

Friedline, T.M., a Kepple, N. (2017). **Does Community Access to Alternative Financial Services Relate to Individuals' Use of These Services? Beyond Individual Explanations**. *Journal of Consumer Policy* (40), 51–79.

Gray, M., Möser, K., a Gardner, J. (2020). **Understanding low-income debt in a high-income country**, yn Gardner, J., Gray, M. a Möser, K. (goln) *Debt and Austerity. Implications of the Financial Crisis*. Edward Elgar Publishing.

Grinstein-Weiss, M., Sherraden, M., Rohe, W. M., Gale, W., Schreiner, M., a Key, C. (2013). **Long-Term Impacts of Individual Development Accounts on Homeownership among Baseline Renters: Follow-Up Evidence from a Randomized Experiment**. *American Economic Journal: Economic Policy*, 5(1), 122-45.

Hardy, G., a Lane, J. (2018). **Walking on thin ice: The cost of financial insecurity**. Llundain: Cyngor ar Bopeth.

Hartfree, Y., a Collard, S. (2014). **Poverty, debt and credit: An expert-led review**. Adroddiad terfynol. Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree. Cyrchwyd o:

<https://www.bristol.ac.uk/media-library/sites/geography/migrated/documents/pfrc1404.pdf>

Hastings, J., Madrian, B., a Skimmyhorn, W. (2013). **Financial Literacy, Financial Education and Economic Outcomes**. Annual Review of Economics, 5, 347-373.

Hiilamo, A. (2020). **Debt matters? Mental wellbeing of older adults with household debt in England**. SSM Population Health 12.

Hiilamo, A., a Grundy, E. (2020). **Household debt and depressive symptoms among older adults in three continental European countries**. Ageing and Society, 40(2), 412-438.

Hiilamo, H. (2021). **The Legacy of Economic Recession in Terms of Over-Indebtedness: A Framework and Review of the Evidence**. Social Policy and Society, 20(1), 111-124.

Hood, A., Joyce, R., a Sturrock, D. (2018). **Problem debt and low-income households, Institute of Fiscal Studies**. Cyrchwyd o: <https://www.ifs.org.uk/uploads/publications/comms/R138%20-%20Problem%20debt.pdf>

Howick, J., Chalmers, I., Glasziou, P., Greenhalgh, T., Heneghan, C., Liberati, A., Moschetti, I., Phillips, B., a Thornton, H. (2011). **The 2011 Oxford CEBM Levels of Evidence (Introductory Document)**. Oxford Centre for Evidence-Based Medicine. Cyrchwyd o: <https://www.cebm.ox.ac.uk/resources/levels-of-evidence/ocebmllevels-of-evidence>

ICF International. (2017). **Review of the literature concerning the effectiveness of current debt solutions**. Final Report for the Money Advice Service (MAS). Cyrchwyd o: <https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/corporate/debt-solutions--recommendations-for-change>

Sefydliad Joseph Rowntree. (2018). **Poverty in Wales 2018**. Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

Sefydliad Joseph Rowntree. (2020a). **Household Problem Debt. Data report**. Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree. Cyrchwyd o: <https://www.jrf.org.uk/data/household-problem-debt>

Sefydliad Joseph Rowntree. (2020b). **The financial impact of COVID-19 on disabled people and carers**. Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree. Cyrchwyd o: <https://www.jrf.org.uk/report/financial-impact-covid-19-disabled-people-and-carers>

Kaiser, T., a Menkhoff, L. (2017). **Does Financial Education Impact Financial Literacy and Financial Behavior, and If So, When?** *The World Bank Economic Review*, 31(3), 611–630.

Kelly, G., a Johnston, M. (2019). **Explaining Microfinance’s Resilience: The Case of Microfinance in Australia.** *Globalizations* 16(6), 876–893.

Kenway, P., Ayrton, C., Chandran, C., a Tortajada, I. (2022). **What makes an anti-poverty strategy effective?** Llundain: New Policy Institute.

Krumer-Nevo, M., Gorodzeisky, A., a Saar-Heiman, Y. (2016). **Debt, poverty and financial exclusion.** *Journal of Social Work* (17), 511-530.

Lea, S.E.G. (2021). **Debt and Overindebtedness: Psychological Evidence and its Policy Implications.** *Social Issues and Policy Review*, 15, 146-179.

Lennartz, C., a Ronald, R. (2017). **Asset-based Welfare and Social Investment: Competing, Compatible, or Complementary Social Policy Strategies for the New Welfare State?** *Housing, Theory and Society*, 34(2), 201-220.

Lerman, R. I., a McKernan, S. (2008). **The Effects of Holding Assets on Social and Economic Outcomes of Families: A Review of Theory and Evidence.** The Urban Institute.

Levitas, R., Pantazis, C., Fahmy, E., Gordon, D., Lloyd-Reichling, E., a Patsios, D. (2007). **The multi-dimensional analysis of social exclusion.** Bryste: Prifysgol Bryste.

Lusardi, L., a Mitchell, O. (2007). **Financial Literacy and Retirement Preparedness: Evidence and Implications for Financial Education.** *Business Economics* 42(1), 35-44.

Lusardi, A., a Mitchell, O. (2014). **The Economic Importance of Financial Literacy: Theory and Evidence.** *Journal of Economic Literature* 52(1), 5–44.

Lusardi, A., a Tufano, P. (2015). **Debt literacy, financial experiences, and overindebtedness.** *Journal of Pension Economics and Finance*, 14(4), 332-368.

Madeira, C. (2019). **The impact of interest rate ceilings on households’ credit access: Evidence from a 2013 Chilean legislation.** *Journal of Banking and Finance* (106), 166-179.

McCloud, T., a D Bann. (2019). **Financial stress and mental health among higher education students in the UK up to 2018: Rapid review of evidence.** Journal of Epidemiology & Community Health, 73(10), 977-984.

McKnight, A. (2011). **Estimates of the asset-effect: The search for a causal effect of assets on adult health and employment outcomes.** Papur CASE 149, Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol (CASE), Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain, Llundain, y DU.

McKnight, A., a Rucci, M. (2020). **The financial resilience of households: 22 country study with new estimates, breakdowns by household characteristics and a review of policy options,** Papur CASE 219, Canolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain, Llundain, y DU.

Meltzer, H., Bebbington, P., Brugha, T., Jenkins, R., McManus, S., a Dennis, A.S. (2011). **Personal debt and suicidal ideation.** Psychological Medicine, 41(4), 771-778.

Miller, M., Reichelstein, J., Salas, C., a Zia, B. (2015). **Can You Help Someone Become Financially Capable? A Meta-Analysis of the Literature.** The World Bank Research Observer, 30(2), 220–246.

Mills, G., McKernan, S., Ratcliffe, C., Edelstein, S., Pergamit, M., a Braga, B. (2019). **First-Year Impacts on Savings and Economic Well-Being from the Assets for Independence Program Randomized Evaluation.** Journal of Consumer Affairs, 53(3), 848-868.

Möser, K. (2020). **The changing infrastructure of debt relief: privatisation, bureaucracy and public choice,** yn Gardner, J., Gray, M. and Möser, K. (goln) *Debt and Austerity. Implications of the Financial Crisis.* Edward Elgar Publishing.

OECD. (2018). **A Broken Social Elevator? How to Promote Social Mobility,** Paris: OECD Publishing.

OECD. (2019). **Successful Tax Debt Management: Measuring Maturity and Supporting Change.** Paris: OECD Publishing.

OECD. (2020). **OECD/INFE 2020 International Survey of Adult Financial Literacy.** Paris: OECD Publishing. Cyrchwyd o:
<https://www.oecd.org/financial/education/oecd-infe-2020-international-survey-of-adult-financial-literacy.pdf>

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019). **Household debt in Great Britain: April 2016 to March 2018.** Cyrchwyd o:

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/incomeandwealth/bulletins/householddebtingreatbritain/april2016tomarch2018>

Ong, Q., Theseira, W., a Ng I.Y.H. (2019). **Reducing debt improves psychological functioning and changes decision-making in the poor.** Proceedings of the National Academy of Sciences, 116(15), 7244-7249.

Orton, M. (2010). **The Long-Term Impact of Debt Advice on Low Income Households: The Year 3 Report.** Warwick: Warwick Institute for Employment Research a Sefydliad Friends Provident.

Rohe, W. M., Key, C., Grinstein-Weiss, M., Schreiner, M., a Sherraden, M. (2017). **The Impacts of Individual Development Accounts, Assets, and Debt on Future Orientation and Psychological Depression.** Journal of Policy Practice 16(1), 24-45.

Round, A., Nanda, S., a Rankin, L. (2020). **Helping Households in Debt.** IPPR Centre for Economic Justice. Cyrchwyd o: <https://www.ippr.org/files/2020-11/helping-households-in-debt-nov20.pdf>

Schreiner, M., Clancy, M., a Sherraden, M.W. (2002). **Final Report: Saving Performance in the American Dream Demonstration, A National Demonstration of Individual Development Accounts.** Center for Social Development, George Warren Brown School of Social Work: Prifysgol Washington yn St Louis.

Schreiner, M., a Sherraden, M.W. (2007). **Can the poor save? Saving and asset building in individual development accounts.** New Brunswick, NJ: Transaction Publishers.

Sheehy-Skeffington, J., a Rea, J. (2017). **How poverty affects people's decision-making processes.** Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

Sherman, L. W., Gottfredson, D., Mackenzie, D., Eck, J., Reuter, P., a Bushway, S. (1997). **Preventing Crime: What Works, What Doesn't, What's Promising.** Adroddiad i Gyngres yr Unol Daleithiau. Washington, D.C. U.D.A. Adran Gyfiawnder

yr Unol Daleithiau. Sherraden, M.W. (2009). **Individual Development Accounts and Asset-building Policy: Lessons and Directions,** yn Blank, R.M. and Barr, M.S. (goln) *Insufficient Funds: Savings, Assets, Credit and Banking among Low-Income Households.* Efrog Newydd: Sefydliad Russel Sage.

Sinclair, S. (2014). **Credit union modernisation and the limits of voluntarism.** Policy & Politics, 42(3), 403-419.

Spooner, J. (2019). **Bankruptcy policy in a dematerialised insolvency law: glimpses of a hidden system.** *Insolvency Intelligence* 32(1), 30-37

Spooner, J. (2020). **Austerity and financial safety nets: bankruptcy abuse prevention and bank protection in Irish post-crisis policy?**, yn Gardner, J., Gray, M. a Möser, K. (goln) *Debt and Austerity. Implications of the Financial Crisis.* Edward Elgar Publishing.

Stamp, S. (2012). **The impact of debt advice as a response to financial difficulties in Ireland.** *Social Policy and Society*, 11(1), 93-104.

The Trussell Trust. (2020). **Lockdown, lifelines and the long haul ahead: The impact of Covid-19 on food banks in the Trussell Trust network.** Cyrchwyd o: <https://www.trusselltrust.org/wpcontent/uploads/sites/2/2020/09/the-impact-of-covid-19-on-food-banks-report.pdf>

Turunen, E., a Hiilamo, H. (2014). **Health effects of indebtedness: A systematic review.** *BMC Public Health*, 14(1), 489.

Llywodraeth Cymru. (2016). *Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i Gymru 2016*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Winckler, V. (2014). **Overview of indebtedness, low income and financial exclusion.** Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, Adroddiad Rhif 6. Cyrchwyd o: <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2019/06/Indebtedness-in-Wales1.pdf>

YouGov. (2012). **Money Advice Service: Final Report. The effectiveness of debt advice in the UK.** Cyrchwyd o: <https://mascdn.azureedge.net/cms/research-oct12-effectiveness-of-debt-advice-from-yougov.pdf>

The Young Foundation. (2016). **Credit where credit's due?: Understanding experiences of high cost credit in Wales.** Llundain: The Young Foundation.

Zinman J. (2010). **Restricting consumer credit access: household survey evidence on effects around the Oregon rate cap.** *Journal of Banking and Finance* (34), 546-556.

Atodiad: Methodoleg

Diffiniad o dlodi ac allgáu cymdeithasol

At ddibenion y prosiect hwn, cytunwyd y byddai cysyniad aml-ddimensiwn o anfantais, a fyddai'n cynnwys dimensiynau cymdeithasol yn ogystal ag economaidd, yn cael ei fabwysiadu. Mae Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (B-SEM) (Levitas et al., 2007) yn darparu'r strwythur damcaniaethol sy'n sail i ddedol meysydd polisi. Mae Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste yn defnyddio'r diffiniad ymarferol canlynol o allgáu cymdeithasol:

“Proses gymhleth ac amlddimensiwn yw allgáu cymdeithasol. Mae'n cynnwys diffyg neu wrthod adnoddau, hawliau, nwyddau a gwasanaethau, a'r anallu i gymryd rhan yn y cydberthnasau a'r gweithgareddau arferol, sydd ar gael i'r rhan fwyaf o bobl mewn cymdeithas, boed hynny mewn meysydd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol neu wleidyddol. Mae'n effeithio ar safon bywyd unigolion yn ogystal â thegwch a chydlyniant y cymdeithas gyfan.” (Levitas et al., 2007, tud.9).

Mae wedi'i strwythuro o amgylch tri phrif faes a deg is-faes (gweler Tabl 1).

Tabl 1: B-SEM domains and sub-domains

A. Adnoddau:	
A1: Adnoddau materol/economaidd	Mae hyn yn cynnwys allgáu mewn perthynas ag incwm, hanfodion sylfaenol (fel bwyd), asedau, dyled ac allgáu ariannol.
A2: Mynediad at wasanaethau cyhoeddus a phreifat	Mae hyn yn ymwneud ag allgáu o wasanaethau cyhoeddus a phreifat oherwydd bod gwasanaethau'n annigonol, yn anfforddiadwy neu nad ydynt ar gael. Mae'r ystod o wasanaethau yn cwmpasu gwasanaethau cyhoeddus, cyfleustodau, trafniadaeth a gwasanaethau preifat (gan gynnwys gwasanaethau ariannol).
A3: Adnoddau cymdeithasol	Mae hyn yn adlewyrchu ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd rhwydweithiau cymdeithasol a chymorth cymdeithasol ar gyfer llesiant unigolion. Mae agwedd

allweddol yn ymwneud â phobl sydd wedi'u gwahanu
oddi wrth eu teulu a'r rhai sydd wedi'u sefydliadoli.

B. Cyfranogiad:

B1: Cyfranogiad economaidd	Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn cyflogaeth – sydd nid yn unig yn bwysig ar gyfer cynhyrchu adnoddau ond sydd hefyd yn agwedd ar gynhwysiant cymdeithasol ynddo'i hun. Mae p'un a yw gwaith yn brofiad cadarnhaol, cynhwysol yn dibynnu'n rhannol ar y gwobrau ariannol a ddaw yn ei sgil, ac yn rhannol ar natur ac ansawdd y gwaith. Deellir gwaith yn fras ac mae'n cynnwys gweithgareddau gofalu a gwaith di-dâl.
B2: Cyfranogiad cymdeithasol	Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol cyffredin yn ogystal â chydabod pwysigrwydd cyflawni rolau ystyrlon (e.e. fel rhieni, neiniau a theidiau, plant).
B3: Diwylliant, addysg a sgiliau	Mae hyn yn cwmpasu cyfalaf diwylliannol a chyfranogiad diwylliannol. Mae'n cynnwys caffael cymwysterau ffurfiol, sgiliau a mynediad at wybodaeth yn ehangach, er enghraifft cynhwysiant llythrennedd digidol. Mae hefyd yn cynnwys gweithgareddau diwylliannol a hamdden.
B4: Cyfranogiad gwleidyddol a dinesig	Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn prosesau gwleidyddol ffurfiol yn ogystal â mathau o weithgarwch gwleidyddol distrwythur ac anffurfiol, gan gynnwys ymgysylltu dinesig a chyfranogiad cymunedol.

C. Ansawdd bywyd:

C1: Iechyd a llesiant	Mae hyn yn ymdrin ag agweddau ar iechyd. Mae hefyd yn cynnwys agweddau eraill sy'n ganolog i lesiant unigolion megis boddhad bywyd, datblygiad personol, hunan-barch, a bod mewn sefyllfa lle mae problemau stigma'n debygol.
C2: Amgylchedd byw	Mae hyn yn canolbwyntio ar nodweddion yr amgylchedd byw 'dan do', gan gynnwys dangosyddion ansawdd tai, tai annigonol ac allgáu ar ffurf digartrefedd; a'r amgylchedd byw 'awyr agored', sy'n cynnwys nodweddion cymdogaeth.
C3: Troseddu, niwed a throseddoleiddio	Mae hyn yn cynnwys amlygiad i niwed, diogelwch gwrthrychol/goddrychol a throseddu a throseddoleiddio. Mae'n adlewyrchu natur waharddol bosibl bod yn destun

niwed, yn ogystal ag allgáu, stigmatiddio a throseddoleiddio'r cyflawnwyr.

Nodiadau: mae'r disgrifiadau o'r is-feysydd yn seiliedig ar ddealltwriaeth yr awduron o'r hyn y mae pob is-faes yn ei gynnwys ar sail Levitas et al. (2007).


Dethol meysydd polisi

Tn ystod y cam cyntaf, nododd y tîm ymchwil restr hir o 40 o feysydd polisi gan gyfeirio at feysydd ac is-feysydd Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste. Cafodd y rhestr hir ei llywio, yn rhannol, gan adolygiad o dueddiadau allweddol mewn tloidi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru, ar draws y deg is-faes, a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (Carter, 2022a); ystyriaeth o bwerau datganoledig Llywodraeth Cymru ar draws meysydd polisi; a chyfarfodydd ag arbenigwyr. O'r rhestr hir hon, cytunwyd ar restr fer o 12 maes polisi. Wrth lunio'r rhestr fer, ystyriwyd cyngor ar feysydd blaenoriaeth a nodwyd gan grŵp ffocws o arbenigwyr ond, yn y pen draw, dewiswyd y rhestr derfynol o 12 polisi gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r set derfynol o 12 maes polisi yn cwmpasu sbectrwm eang o fewn y B-SEM, ac mae'r rhan fwyaf yn gysylltiedig â mwy nag un is-faes o fewn Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (Ffigur A1). Fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod y detholiad terfynol yn gynhwysfawr o safbwynt polisi tloidi ac allgáu cymdeithasol. Y rheswm am hyn yw nad yw rhai meysydd polisi pwysig wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, ac felly ni chawsant eu cynnwys. Er enghraifft, er bod digonolrwydd nawdd cymdeithasol yn sbardun allweddol o ran tloidi, nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau ar hyn o bryd i bennu elfennau allweddol o bolisi nawdd cymdeithasol (e.e. cyfraddau a meini prawf cymhwysedd ar gyfer y prif fudd-daliadau mewn gwaith a bydd-daliadau di-waith). Dyma'r rheswm pam rydym yn canolbwyntio ar un agwedd ar nawdd cymdeithasol, sef nifer y bobl sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod, y mae gan Lywodraeth Cymru bŵer i ddylanwadu arni.

Roedd cwmpas ac amserlenni'r prosiect yn ffactor arall, a gyfyngodd y dewis i 12 maes polisi ac a olygodd bod rhaid eithrio meysydd pwysig eraill (er enghraifft, gofal cymdeithasol, gofal iechyd a throseddu). Er mwyn sicrhau bod modd rheoli'r adolygiadau, roedd angen hefyd nodi ffocws ar gyfer pob un o'r 12 maes polisi. Nododd y tîm ymchwil ffocws ar gyfer pob un o'r adolygiadau ar sail cwmpas cychwynnol cryno o'r dystiolaeth ymchwil ac ymgynghoriad â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, a ymgynghorodd, lle roedd hynny'n berthnasol, ag arbenigwyr sector ac arbenigwyr polisi. Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol y bydd polisiau ychwanegol y gellid eu cynnwys mewn strategaeth tloidi ac allgáu cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru o fewn y 12 maes polisi ac yn ogystal â'r 12 maes polisi a adolygwyd.

**Ffigur A1. Y meysydd polisi detholedig wedi'u mapio i is-feysydd perthnasol
Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste**



Ffynhonnell: paratowyd gan yr awduron

Nodiadau: Mae'r ffigur yn amlinellu sut mae'r 12 maes polisi a ddetholwyd wedi'u mapio â Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste: mae llinellau trwm yn dangos y berthynas rhwng pob maes polisi a phrif is-faes/is-feysydd Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste, mae llinellau toredig ysgafn yn nodi is-feysydd eilaidd detholedig Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste y mae'r polisïau'n gysylltiedig â nhw (mae rhestr lawn o'r 'is-feysydd eilaidd' hyn wedi'i chynnwys yn yr adolygiadau penodol).

Ffigur A1 Y meysydd polisi detholedig wedi'u mapio i is-feysydd perthnasol Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste	Figure A1. The selected policy areas mapped to relevant B-SEM sub-domains
Tlodi bwyd	Food poverty
Y nifer sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod	Take-up of cash transfers
Dyled aelwydydd	Household debt
Cyflenwad tai fforddiadwy	Affordable housing supply
Tlodi tanwydd	Fuel poverty
Allgáu digidol	Digital exclusion
Anfantais o ran trafndiaeth	Transport disadvantage

Gwasanaethau ieuencid	Youth services
Cynnydd yn nifer y bobl sy'n gweithio	In-work progress
Addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar	Early childhood education and care
Addysg bellach	Further education
Amgylchedd y gymdogaeth	Neighbourhood environment
Adnoddau perthnasol	Material resources
Mynediad at wasanaethau	Access to services
Adnoddau cymdeithasol	Social resources
Cyfranogiad economaidd	Economic participation
Cyfranogiad cymdeithasol	Social participation
Addysg, diwylliant a sgiliau	Education, culture and skills
Cyfranogiad gwleidyddol a dinesig	Political and civic participation
Iechyd a lles	Health and wellbeing
Amgylchedd byw	Living environment
Troseddu, niwed a throseddoleiddio	Crime, harm and criminalisation
Adnoddau	Resources
Cyfranogiad	Participation
Ansawdd bywyd	Quality of life

Camau adolygu

Yn yr adran ‘tystiolaeth o effeithiolrwydd polisiau’, mabwysiadwyd dull strwythuredig er nad oedd yn bosibl llunio adolygiad systematig llawn (er y cafodd dystiolaeth o adolygiadau systematig presennol a dadansoddiadau lefel meta eu cynnwys pan oeddent ar gael),. I ddechrau, roedd hyn yn golygu gwerthuso cyflwr y llenyddiaeth berthnasol, gan ganolbwyntio ar ddewis a gâi effeithiolrwydd ei asesu drwy ddulliau yr ystyrir yn gyffredinol eu bod yn fwy addas i sefydlu achosoldeb (e.e. ar sail cynlluniau graddio hierarchaidd fel Graddfa Dull Gwyddonol Maryland (Sherman et al., 1997) neu lefelau dystiolaeth Canolfan Rhydychen ar gyfer Meddygaeth seiliedig ar Dystiolaeth (OCEBM) (Howick et al., 2011)), megis hapdreialon rheoledig, meta-ddadansoddiadau o hapdreialon rheoledig ac astudiaethau lled-arbrofol eraill. Er bod hapdreialon rheoledig yn arbennig o effeithiol o ran nodi a yw ymyriad penodol wedi cael effaith mewn cyd-destun penodol, gallai mathau eraill o dystiolaeth, fel astudiaethau lled-arbrofol ac astudiaethau arsylwadol gyda rheolaethau priodol, fod yn fwy addas, gan ddibynnu ar y math o ymyriad, ar gyfer sefydlu'r ystod o ganlyniadau a gyflawnwyd yn ogystal â chynnig dealltwriaeth o effeithiau dosbarthiadol a'i gwneud yn bosibl dadansoddi is-grwpiau (h.y. ‘o safbwynt pwy’ y gweithiodd yr ymyriad). Wrth asesu'r dystiolaeth, cafodd astudiaethau achos eu

dethol er mwyn ymhelaethu ymhellach ar rai o'r canfyddiadau allweddol a ddeilliodd o'r adolygiad ac i nodi enghreifftiau penodol o ymyriadau polisi addawol.

Mewn ambell faes, amlygodd yr adolygiad o'r llenyddiaeth ddiffyg gwerthusiadau cadarn – mae'r adolygiadau'n pwysleisio hyn ac yn cyflwyno'r dystiolaeth orau sydd ar gael a ganfuwyd ynghyd ag asesiad o gryfder y dystiolaeth. Lle y bo'n bosibl, ystyriwyd gwerthusiad o'r mecanweithiau newid sylfaenol hefyd, gan olygu ei bod yn bosibl esbonio nid yn unig a yw ymyriad penodol yn gweithio, ond hefyd pam, gan felly hefyd hwyluso'r gwaith o nodi heriau a ffactorau hwyluso, sy'n hanfodol wrth feddwl nid yn unig am 'beth' y dylid ei wneud ond hefyd 'sut' y gellir ei weithredu orau.

Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar i nifer o arbenigwyr a fynychodd gyfres o grwpiau ffocws yr oedd eu mewnbwn wedi:

- helpu i lywio'r broses o nodi meysydd polisi allweddol;
- gwella ein dealltwriaeth o drosglwyddadwyedd polisiâu i Gymru;
- llywio ein hystyriaeth o heriau gweithredu a ffactorau hwyluso.

Hoffem ddiolch hefyd i'r bobl ganlynol am gynnal adolygiad cymheiriaid o'r adolygiadau polisi: Dr Rod Hick, Prifysgol Caerdydd; Dr Victoria Winckler, The Bevan Foundation; a Gwennan Hardy; y Ganolfan Cyngor ar Bopeth. Helpodd Amanda Hill-Dixon, Dan Bristow, Manon Roberts ac Isabelle Carter yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i lywio'r prosiect a rhoesant adborth amhrisiadwy a sylwadau manwl ar ddrafftiau o'r adolygiadau polisi.

Manylion am yr awduron

Mae Dr Irene Bucelli yn swyddog ymchwil yn y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain.

Mae Dr Abigail McKnight yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol a Chymrawd Ymchwil Athrawol Cyswllt yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:


Dan Bristow

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

 **Wales Centre
for Public Policy**
Canolfan Polisi
Cyhoeddus Cymru